



RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL:

59/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

14/11/2018

Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2018

Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2018

Awdur(on): Cerys Ponting

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2018; Cerys Ponting (2018). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 59/2018.

Ar gael yn: : <https://gov.wales/statistics-and-research/grant-recipients-survey/?lang=cy>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'n adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Cerys Ponting

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 7342

E-bost: CorporateResearch@llyw.cymru

Tabl y cynnwys

Tabl o'r Ffigyrau	2
Crynodeb Gweithredol.....	3
1 Cyflwyniad	7
2 Dulliau.....	8
2.1 Ystyriaethau methodolegol	8
3 Cwmpas yr adroddiad hwn	9
4 Canfyddiadau'r Arolwg	9
4.1 Proffil yr ymatebwyr	9
4.2 Boddhad â'r broses grantiau.....	10
Boddhad cyffredinol	11
Sylwadau a ddarparwyd ynglŷn â phroses grantiau Llywodraeth Cymru	19
5 Meysydd ychwanegol y rhoddwyd sylw iddynt yn yr arolwg	27
5.1 Cysondeb a dyblygu o fewn y broses grantiau	27
5.2 Cyllid grant o ffynonellau eraill gan ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein	34
Y tebygolrwydd o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru	39
Atodiad A: Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2018.....	43
Atodiad B: Boddhad cyffredinol yn ôl sector – dadansoddiad manwl	52

Tabl o'r Ffigyrau

Ffigur 1: Mathau o sefydliad (Derbynyddion 'cyfredol')	10
Ffigur 2: Ymwneud â gwahanol gamau o broses grantiau Llywodraeth Cymru	11
Ffigur 3: Boddhad cyffredinol â'r broses grantiau a'r cymorth gan swyddogion	12
Ffigur 4: Boddhad â'r canllawiau cychwynnol ar wneud ceisiadau am grantiau	14
Ffigur 5: Boddhad â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad	15
Ffigur 6: Boddhad â'r Llythyr Dyfarnu (telerau ac amodau'r grant).....	16
Ffigur 7: Boddhad â'r broses monitro grantiau	17
Ffigur 8: Boddhad â'r broses hawliadau a thaliadau.....	18
Ffigur 9: Boddhad â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru	19
Ffigur 10: Canrannau'r ymatebwyr a oedd wedi ymgeisio am fwy nag un, neu wedi cael mwy nag un o Grantiau Llywodraeth Cymru	27
Ffigur 11: Cysondeb ar draws Grantiau Llywodraeth Cymru:.....	29
Ffigur 12: Canran yr ymgeiswyr am fwy nag un neu dderbynyddion mwy nag un o Grantiau Llywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol.....	30
Ffigur 13: Ymgeiswyr am fwy nag un neu dderbynyddion mwy nag un o grantiau Llywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol a ddarparodd yr un wybodaeth fwy nag unwaith:.....	31
Ffigur 14: Profiad o wneud ceisiadau am gyllid grant yn ddigidol o ffynonellau eraill	35
Ffigur 15: Camau o'r broses grantiau y cafwyd profiad ohonynt ar-lein neu'n ddigidol gyda chyrff eraill	36
Ffigur 16: Y tebygolrwydd o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru.....	40

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Comisiynwyd yr ymchwil hon gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau i helpu i oleuo newidiadau i'r broses grantiau. Mae hefyd yn ymateb i ymrwymiad a wnaed i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i redeg arolwg o dderbynyddion grantiau yn 2018.

Dull

- Cynhaliwyd arolwg ar-lein gyda derbynyddion grantiau Llywodraeth Cymru rhwng 5 a 25 Gorffennaf 2018 i ddeall lefelau boddhad presennol â'r broses grantiau, barn am gysondeb a dyblygu ar draws grantiau Llywodraeth Cymru, a defnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer cyllid grant o ffynonellau eraill.
- Fe ddarparodd rheolwyr grantiau yn Llywodraeth Cymru fanylion cyswllt derbynyddion grantiau Llywodraeth Cymru. O'r rhain, darparwyd 1911 o gyfeiriadau e-bost dilys gyda chyfradd ymateb o 18% (348 o ymatebion) a chafwyd ymatebion o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.
- Cafodd yr ymatebwyr a gafodd grantiau Llywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill 2016 a mis Ebrill 2018 eu categoreiddio fel derbynyddion grantiau 'cyfredol' (73%); cafodd ymatebwyr a gafodd grantiau cyn mis Ebrill 2016 eu categoreiddio fel derbynyddion grantiau 'hanesyddol'. Nid oedd un y cant erioed wedi cael grant gan Lywodraeth Cymru.
- Dylid nodi nad yw sampl yr arolwg yn cynrychioli holl dderbynyddion cyfredol grantiau Llywodraeth Cymru; gan nad oedd y cyfeiriadau e-bost a ddarparwyd yn cynnwys yr holl dderbynyddion grantiau rhwng 2016 a 2018.
- Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar foddhad derbynyddion grantiau 'cyfredol', a'u profiad o ddyblygu a chysondeb ar draws grantiau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn canolbwyntio ar brofiadau'r holl ymatebwyr a wnaeth gais am grantiau neu a gafodd grantiau gan ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein o ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru.

Bodddhad â'r broses grantiau

- Ar y cyfan, mynegodd derbynyddion grantiau foddhad â'r agweddau cyffredinol ar broses grantiau Llywodraeth Cymru gyda sgoriau'n amrywio o 66% i 80%.
- Roedd y lefelau uchaf o foddhad yn ymwneud â'r broses ar gyfer gwneud hawliadau a thaliadau (80%), y canllawiau ar wneud cais (77%), y llythyr dyfarnu (77%) a chysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru (73%).
- Mynegodd ymatebwyr ychydig llai o foddhad â'r broses monitro grantiau (69%) a'r broses gwneud cais a chael penderfyniad (67%).
- O fewn yr agweddau eang hyn ar y broses grantiau, roedd rhai sgoriau bodddhad uwch nag 80% ar gyfer rhannau penodol o bob proses, gan gynnwys: bod y llythyr dyfarnu'n nodi'n glir beth yw'r rolau a'r cyfrifoldebau gofynnol ac yn hawdd i'w ddeall; bodddhad â'r ffordd yr ymdrinnir â hawliadau, gwybod â phwy y dylid cysylltu ynghylch hawliadau a thaliadau a digonolrwydd yr wybodaeth ategol sy'n ofynnol.
- I'r gwrthwyneb dim ond 57% oedd yn cytuno bod y llythyr dyfarnu wedi cael ei anfon mewn da bryd a dim ond 62% oedd yn cytuno eu bod yn gwybod sut i ganfod pa grantiau oedd ar gael.
- Cafodd bodddhad cyffredinol â'r broses grantiau ei ddadansoddi yn ôl sector. Ymatebwyr o'r trydydd sector oedd fwyaf bodlon, gan roi sgoriau uwch na'r cyfartaledd i bob agwedd ar y broses grantiau. Roedd y sectorau cyhoeddus a phreifat yn nodweddiadol yn llai bodlon. Roedd y sector cyhoeddus yn amlwg yn llai bodlon ar y llythyr dyfarnu (10 pwynt canran islaw'r cyfartaledd ar draws sectorau) a'r broses o wneud cais a chael penderfyniad (9 pwynt canran islaw'r cyfartaledd). Roedd y sector preifat yn llai bodlon ar y prosesau hawliadau a thaliadau (14 pwynt canran islaw'r cyfartaledd) a monitro grantiau (9 pwynt canran islaw'r cyfartaledd).
- Rhoddwyd cyfle yn yr arolwg i'r ymatebwyr ddarparu sylwadau ar y broses grantiau. Roedd cyfran o'r sylwadau'n gadarnhaol, gyda derbynyddion yn hapus gyda'r gwasanaeth a'r cymorth a roddwyd trwy gydol y broses ac yn canmol swyddogion a oedd wedi rhoi arweiniad iddynt. Roedd rhai'n fodlon ar dryloywder y broses ac roedd rhai wedi'i chael yn haws na'r disgwyl. Fodd

bynnag, roedd rhai sylwadau'n llai cadarnhaol, gan amlygu peth anghysondeb rhwng profiadau; a rhai heriau mewn perthynas â'r canlynol: prydlondeb, y prosesau hawliadau a thaliadau, a newidiadau diweddar i gyllid grant.

Cysondeb a dyblygu ar draws grantiau Llywodraeth Cymru

- Gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr a ddynododd fod ganddynt brofiad o wneud cais am, neu o dderbyn, mwy nag un grant gan Lywodraeth Cymru am **gysondeb y broses grantiau** ar draws Llywodraeth Cymru.
- Dynododd yr ymatebwyr hyn fod y lefel uchaf o gysondeb â'r cyngor a gawsant gan swyddogion Llywodraeth Cymru (73% wastad neu weithiau'n gyson) a bod y lefel isaf o gysondeb yn y prosesau monitro (56% wastad neu weithiau'n gyson).
- Cafodd cysondeb ar draws ffurflenni cais, y broses ar gyfer cyflwyno ceisiadau a gwneud hawliadau sgoriau o 64%, 60% a 62% yn y drefn honno.
- Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi cael mwy nag un Grant gan Lywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol am **ddarparu gwybodaeth ddyblyg**.
- Dywedodd 78% o'r ymatebwyr hyn eu bod wedi darparu gwybodaeth ddyblyg ar gyfer ceisiadau, 46% yn ystod y broses monitro grantiau, 49% wrth wneud hawliad; bu'n rhaid i 49% egluro'r un mater wrth wahanol swyddogion yn Llywodraeth Cymru.
- Gofynnwyd i ymatebwyr wneud sylwadau am eu profiad o gysondeb a dyblygu ar draws y prosesau ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru.
- Dywedodd rhai fod y ffaith bod y grantiau i gyd yn wahanol yn golygu y byddent yn nodweddiadol yn disgwyl profiad anghyson gan ddibynnu ar: yr adran sy'n dyfarnu'r grant, profiad rheolwr y grant, neu faint y grant. Roedd rhai'n teimlo bod y gwahaniaethau'n briodol am fod blaenoriaethau polisi'n newid dros amser. Roedd rhai nad oeddent yn gwneud ceisiadau am grantiau'n rheolaidd hefyd yn disgwyl i brosesau grantiau fod wedi newid. Dywedodd rhai fod newidiadau i ofynion, meini prawf cymhwystra neu lefelau'r cyllid o fewn yr un cynllun grant o un flwyddyn i'r llall yn achosi mwy o rwystredigaeth nag anghysonderau rhwng grantiau gwahanol.

- Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn feichus darparu gwybodaeth ddyblyg ar gyfer gwahanol geisiadau am grant; er enghraifft ailadrodd manylion cyswllt sylfaenol a gwybodaeth ariannol. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod chwilfrydedd pam nad oedd y math yma o wybodaeth am dderbynyddion grantiau'n cael ei rhannu'n fwy eang ar draws timau grantiau Llywodraeth Cymru.

Defnyddio rhyngwynebau ar-lein i brosesu grantiau

- Gofynnwyd i ymatebwyr am eu profiadau o wneud ceisiadau am gyllid grant ar-lein o ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru. Dim ond 36% o'r ymatebwyr oedd â phrofiad o hyn.
- O'r rhain a oedd wedi defnyddio rhyngwynebau ar-lein, roedd 90% wedi gwneud cais am gyllid grant, roedd 64% wedi darparu gwybodaeth fonitro ac roedd gan 61% brofiad o'r broses taliadau.
- Gwnaeth nifer sylwadau am yr hyn yr oeddent yn ei hoffi fwyaf neu leiaf ynglŷn â gwneud cais a gweinyddu grantiau trwy rhyngwynebau ar-lein.
- Pan ofynnwyd a oedd ymatebwyr yn debygol o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein pe baent yn cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y mwyafrif eu bod yn hynod debygol neu'n weddol debygol o wneud cais am gyllid grant (87%), darparu gwybodaeth fonitro (89%) neu ymgymryd â hawliadau a thaliadau (90%) yn y ffordd yma.
- Darparodd rhai ymatebwyr sylwadau a oedd yn ategu'r canfyddiadau hyn, gan ddynodi eu bod yn disgwyl i broses grantiau Llywodraeth Cymru symud mewn cyfeiriad mwy digidol a'u bod yn cefnogi newid o'r fath ar y cyfan.

1 Cyflwyniad

Mae cyllid grant yn gyfrwng hanfodol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu gyda thros 11,000 o ddyfarniadau grantiau'n cael eu cynnig bob blwyddyn.

Fel y nodwyd yn [Adroddiad Blynyddol Interim Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau](#), mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei phrosesau Grantiau a Sicrwydd fel elfen o waith i'r Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd. Nod y ffrwd waith hon yw lleihau biwrocratiaeth trwy weithredu gwelliannau megis newid i blatfformau electronig ar gyfer rhai elfennau o'r broses grantiau a safoni prosesau gwneud cais a llythyrau dyfarnu, ymhlith camau gweithredu eraill.

Comisiynwyd yr ymchwil hon gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau er mwyn: helpu i oleuo'r newidiadau y dylid eu gwneud i'r broses grantiau trwy ffrwd waith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd; ac er mwyn ymateb i ymrwymiad a wnaed i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i redeg arolwg derbynyddion grantiau yn 2018.

Nod yr ymchwil ar y cyfan oedd darparu darlun cyfredol o foddhad â phrosesau grantiau Llywodraeth Cymru ac amlygu'r meysydd lle y mae fwyaf angen gwelliant yn ôl deiliaid grantiau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Roedd hefyd yn amcanu at ddeall agweddau derbynyddion tuag at liflinio a symud rhai prosesau fel eu bod yn cael eu cynnal ar-lein. Mae amcanion yr ymchwil wedi'u cynnwys isod:

- Mesur boddhad derbynyddion grantiau cyfredol â'r agweddau unigol ar y broses grantiau (Adran 4.2), a hynny'n cwmpasu'r canlynol:
 - defnyddio canllawiau ar wneud cais am grant;
 - cyflwyno ffurflen gais;
 - derbyn Llythyr Dyfarnu;
 - monitro;
 - gwneud hawliad ariannol neu dderbyn taliadau grantiau;
 - cyswllt â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch grantiau.
- Pwyso a mesur profiadau derbynyddion grantiau cyfredol o ddyblygu a chysondeb ar draws gwahanol grantiau gan Lywodraeth Cymru (Adran 5.1)
- Cael dealltwriaeth am brofiadau ymatebwyr o wneud cais am grantiau eraill gan ddefnyddio platfformau ar-lein neu ddigidol, a chanfod eu hawch am blatfformau tebyg ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru (Adran 5.2)

2 Dulliau

Mabwysiadwyd arolwg ar-lein fel y dull ar gyfer yr ymchwil. Roedd yr arolwg ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg (gweler [Atodiad A](#)). Cynlluniwyd yr arolwg ar gyfer cwblhad cyflym gyda llwybrau ar wahân ar gyfer derbynyddion grantiau cyfredol a hanesyddol er mwyn lleihau'r baich ar ymatebwyr. Dim ond y cwestiwn a oedd yn nodi ym mha flwyddyn ariannol y dyfarnwyd y grant diweddaraf gan Lywodraeth Cymru i ymatebwyr oedd yn orfodol, er mwyn sicrhau bod yr ymatebydd ar y 'llwybr' cywir trwy'r arolwg. Roedd gweddill y cwestiynau'n ddewisol ac yn darparu'r opsiwn i ymatebwyr beidio ag ymateb os oedd yn well ganddynt.

Cafodd sampl yr arolwg ei deillio o wybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr grantiau Llywodraeth Cymru a wahoddwyd i gyflwyno manylion cyswllt derbynyddion grantiau diweddar. Darparwyd cyfanswm o 1911 o gyfeiriadau e-bost dilys. Roedd y sampl yn cynnwys cysylltiadau ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Lansiwyd yr arolwg dydd Iau 5 Gorffennaf 2018, gyda negeseuon e-bost a oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg ar-lein, gan ddefnyddio meddalwedd arolygon Questback, yn cael eu dosbarthu'r diwrnod hwnnw. Daeth yr arolwg i ben ar ddydd Mercher 25 Gorffennaf 2018. Anfonwyd neges e-bost i atgoffa'r holl dderbynyddion ar ddydd Llun 16 ac eto ar ddydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 i'w hannog ymhellach i ymateb.

2.1 Ystyriaethau methodolegol

Caiff sgoriau boddhad yn yr adran canfyddiadau eu cyfrifo fel sgoriau cadarnhaol (gan gyfuno canrannau'r rhai a ddewisodd eu bod yn cytuno'n gryf ac yn cytuno â datganiadau) a sgoriau negyddol (gan gyfuno canrannau'r rhai a ddewisodd eu bod yn anghytuno'n gryf ac yn anghytuno â datganiadau).

Dylid nodi bod canrannau a arddangosir yn y siartiau wedi cael eu talgrynnu i roi rhifau cyfan er symlrwydd cyflwyno ac y gallant gynyddu neu ostwng un pwynt canran pan gânt eu cydgrynhoi fel rhan o'r sgôr cadarnhaol neu negyddol. Mae gwerthoedd o .00 i .49 wedi cael eu talgrynnu i lawr a gwerthoedd o .50 i .99 wedi cael eu talgrynnu i fyny. I roi cymaint o gywirdeb â phosibl, caiff gwerthoedd eu talgrynnu ar y cam cyfrifo olaf. Os yw cyfrifiadau wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r ffigyrau wedi'u talgrynnu yn y siartiau, gall y rhain fod ychydig yn wahanol i'r cyfrifiadau yn yr adroddiad. Felly, mae'n bosibl na fydd sgoriau wedi'u cydgrynhoi ar gyfer Cytuno'n Gryf, Cytuno, Ddim yn Cytuno Nac yn Anghytuno, Anghytuno ac Anghytuno'n Gryf yn rhoi cyfanswm o 100 y cant yn union yn y siartiau.

Yn olaf, o ystyried y dull a ddefnyddiwyd i ddeillio'r sampl, nid yw'r canfyddiadau'n cynrychioli holl dderbynyddion grantiau Llywodraeth Cymru, a dim ond barn y rhai a ymatebodd i'r arolwg y maent yn ei chynrychioli. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n cynnwys ymatebion ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

3 Cwmpas yr adroddiad hwn

O'r cyfanswm o 1911 o ymatebwyr a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymchwil, roedd 348 o ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg, gan roi cyfradd ymateb o 18 y cant.

Cafodd 73 y cant o'r ymatebwyr eu categoraiddio fel derbynyddion grantiau 'cyfredol' (wedi derbyn grantiau rhwng mis Ebrill 2016 a mis Ebrill 2018) a chafodd 26 y cant eu categoraiddio fel derbynyddion grantiau 'hanesyddol' (wedi derbyn grantiau cyn mis Ebrill 2016). Dywedodd un y cant nad oeddent erioed wedi cael grant gan Lywodraeth Cymru.


At ei gilydd, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar farn derbynyddion grantiau 'cyfredol' am y broses grantiau a'u profiad o ddyblygu a chysondeb ar draws grantiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar brofiadau derbynyddion cyfredol a hanesyddol o ddefnyddio platfformau ar-lein i wneud ceisiadau am grantiau o ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru.

4 Canfyddiadau'r Arolwg

4.1 Proffil yr ymatebwyr

Mae Ffigur 1 yn dangos proffil derbynyddion grant 'cyfredol' yn ôl y sector y maent yn gweithio ynddo. Daeth y gyfran fwyaf o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus (45 y cant); roedd 27 y cant o'r trydydd sector a 26 y cant o'r sector preifat. Dywedodd cyfran fach (dau y cant) eu bod wedi gweithio i fath 'arall' o sefydliad.

Ffigur 1: Mathau o sefydliad (Derbynyddion 'cyfredol')



Nifer yr ymatebwyr: 253

4.2 Boddhad â'r broses grantiau

Gofynnwyd i dderbynyddion grantiau cyfredol ddynodi pa gamau o'r broses grantiau yr oeddent wedi ymwneud â hwy, er mwyn canfod pa gwestiynau dilynol fyddai'n berthnasol iddynt.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu boddhad ar raddfa ac iddi bum pwynt o 'Cytuno'n Gryf' i 'Anghytuno'n Gryf' â champau canlynol proses grantiau Llywodraeth Cymru:


- defnyddio canllawiau ar wneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru;
- y broses o wneud cais a chael penderfyniad;
- derbyn y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant);
- prosesau monitro grantiau;
- y prosesau hawliadau a thaliadau; a
- cysylltu â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y cwestiynau am foddhad, cynigiwyd y cyfle i'r holl ymatebwyr ddarparu adborth pellach trwy gwestiwn sylwadau penagored.

Bodddhad cyffredinol

Fel y dengys Ffigur 2, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (91 y cant) wedi cael Llythyr Dyfarnu (telerau ac amodau'r grant), ac roedd y gyfran leiaf (60 y cant) yn ymwneud â defnyddio canllawiau ar wneud cais am grant.

Ffigur 2: Ymwneud â gwahanol gamau o broses grantiau Llywodraeth Cymru




Nifer yr ymatebwyr: 250

Mae Ffigur 3 yn dangos y sgoriau bodddhad cyffredinol ar gyfer pob cam o'r broses grantiau a chysylltiadau'r ymatebwyr â swyddogion. Roedd bodddhad cyffredinol yn 66 y cant neu uwch ar gyfer pob cam o'r broses.

Roedd y lefelau uchaf o foddhad yn ymwneud â'r broses ar gyfer gwneud hawliadau a thaliadau (80%), y canllawiau ar wneud cais (77%), y Llythyr Dyfarnu (77%) a chysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru (73%).

Roedd ymatebwyr ychydig yn llai bodlon ar y broses monitro grantiau (69 y cant) a'r broses o wneud cais a chael penderfyniad (66 y cant).

Ffigur 3: Boddhad cyffredinol â'r broses grantiau a'r cymorth gan swyddogion



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 201, 197, 226, 195, 211, 205

4.2.1.1 Boddhad cyffredinol yn ôl sector

Cafodd y datganiadau ynglŷn â boddhad cyffredinol eu dadansoddi yn ôl sector i ganfod a oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws sectorau. Roedd y categori 'Arall' yn rhy fach i'w gymharu'n ddibynadwy â'r sectorau eraill.

Wrth gymharu boddhad cyffredinol yn ôl sector, y trydydd sector oedd fwyaf bodlon; gan roi sgoriau uwch na'r cyfartaledd i bob agwedd ar y broses grantiau. Roedd y sectorau cyhoeddus a phreifat yn nodweddiadol yn llai bodlon.

Roedd y sector cyhoeddus leiaf bodlon ar y llythyr dyfarnu (10 pwynt canran islaw'r cyfartaledd ar draws sectorau) a'r broses o wneud cais a chael penderfyniad (9 pwynt canran islaw'r cyfartaledd) a'r canllawiau a oedd ar gael ar wneud y cais am grant (5 pwynt canran islaw'r cyfartaledd).

Roedd y sector preifat leiaf bodlon ar y prosesau hawliadau a thaliadau (14 pwynt canran islaw'r cyfartaledd) a monitro grantiau (naw pwynt canran islaw'r cyfartaledd). Roedd y sector preifat a chyhoeddus dim ond ychydig yn llai bodlon (tri phwynt canran) na'r cyfartaledd ar draws sectorau ar gymorth gan swyddogion grantiau.

Ceir disgrifiad manwl o'r dadansoddiad hwn yn [Atodiad B](#).

4.2.1.2 Boddhad manwl â phob cam o'r broses grantiau

Cafodd boddhad â'r broses grantiau ei archwilio'n fwy manwl, gyda chwestiynau ychwanegol ar gyfer pob cam o'r broses grantiau.

Cyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru

I'r rhai a oedd wedi dynodi eu bod wedi cyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru, cawsant ddau fanc o ddatganiadau ynglŷn â boddhad; y naill yn ymwneud â chanllawiau ar wneud cais a'r llall yn ymwneud â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad.


a. Canllawiau ar wneud ceisiadau am Grantiau gan Lywodraeth Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y canllawiau cychwynnol ar wneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru, o ran i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phum datganiad ynglŷn â'r canlynol: pa mor hawdd oedd hi i ganfod pa grantiau oedd ar gael; pa mor hawdd oedd hi i gael gafael ar wybodaeth ar sut i wneud cais am arian grant; pa mor hawdd i'w deall oedd y canllawiau ynglŷn â gwneud cais; pa mor eglur yr oedd y meini prawf cymhwysedd a chyllid wedi eu datgan yn y canllawiau; ar y cyfan, pa mor fodlon oeddent ar y canllawiau ynghylch gwneud cais.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 4, roedd y lefel boddhad yn gymharol uchel ar draws yr holl ddatganiadau, gyda'r sgoriau cadarnhaol yn amrywio o 79 y cant i 62 y cant. Rhoddwyd y sgôr cadarnhaol uchaf i'r datganiad ynglŷn â pha mor eglur oedd y meini prawf cymhwysedd a chyllid wedi eu datgan yn y canllawiau.

Roedd y sgôr cadarnhaol isaf (62 y cant) mewn ymateb i'r datganiad ynglŷn â pha mor hawdd oedd hi i ganfod pa grantiau oedd ar gael. Y datganiad hwn gafodd y sgôr negyddol uchaf hefyd, sef 15 y cant, ond hefyd y sgôr niwtral uchaf (23 y cant).

Ffigur 4: Boddhad â'r canllawiau cychwynnol ar wneud ceisiadau am grantiau



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 201, 200, 201, 200, 202

b. Y broses o wneud cais a chael penderfyniad


Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi dynodi iddynt ymwneud â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad ddatgan i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phum datganiad, sef: pa un a oedd y ffurflen gais yn hawdd ei llenwi, pa un a roddwyd amser digonol i gwblhau'r ffurflen gais, pa un a oedd yr amserlen ar gyfer gwneud cais a chael penderfyniad wedi'i mynegi'n eglur, pa un a oedd swm yr wybodaeth y gofynnwyd amdani i gefnogi fy nghais yn addas ac, yn olaf, ar y cyfan, pa un a oeddent yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 5, roedd sgoriau cadarnhaol yn gwrthbwysu'r sgoriau negyddol o bell ffordd. Cofnodwyd y lefel uchaf o foddhad ar gyfer priodoldeb swm yr wybodaeth y gofynnwyd amdani i ategu ceisiadau, gyda'r datganiad hwnnw'n cael y sgôr cadarnhaol uchaf o 71 y cant a'r sgôr negyddol isaf o 11 y cant.

Y datganiad a gafodd y lefelau uchaf o anfodlonrwydd (sgôr negyddol o 19 y cant) oedd pa un a oedd pa un a oedd yr amserlen ar gyfer gwneud cais a chael penderfyniad wedi'i mynegi'n eglur. Y datganiad hwn gafodd un o'r sgoriau cadarnhaol isaf hefyd, sef 67 y cant.

Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol isaf o 66 y cant, ynghyd â sgôr niwtral uchel o un rhan o bump (21 y cant) o'r ymatebwyr, mewn ymateb i foddhad ar y cyfan â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad.

Ffigur 5: Boddhad â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 197, 196, 196, 197, 198

Cytundeb cyllido

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi dynodi eu bod wedi cael Llythyr Dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) neu gytundeb cyllido gan Lywodraeth Cymru i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phedwar datganiad a oedd yn ymwneud â'r cytundeb cyllido, sef: pa un a oedd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) yn hawdd ei ddeall, pa un a anfonwyd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) mewn da bryd, pa un a oedd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) yn pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr yn eglur ac, yn olaf, ar y cyfan, pa un a oeddent yn fodlon â'r llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant).


Fel y gellir gweld yn Ffigur 6, mae gwahaniaethau mwy rhwng y sgoriau cadarnhaol ar gyfer y cwestiynau ynglŷn â'r cytundeb cyllido na'r cwestiynau blaenorol.

Rhoddwyd y sgôr cadarnhaol uchaf o 85 y cant ar gyfer dau ddatganiad: roedd y llythyr dyfarnu yn hawdd ei ddeall; a pha un a oedd y llythyr dyfarnu yn pennu

swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr yn eglur, gyda'r datganiad hwn yn cael y sgôr negyddol isaf (tri y cant) cyfatebol.

Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol isaf o 58 y cant i'r datganiad ynglŷn â pha un a anfonwyd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) mewn da bryd, gyda'r datganiad hwn yn cael y sgôr negyddol (31 y cant) uchaf hefyd.

Ffigur 6: Boddhad â'r Llythyr Dyfarnu (telerau ac amodau'r grant)



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 226, 225, 226, 227


Y broses monitro grantiau

Dangoswyd pedwar datganiad i'r ymatebwyr a oedd wedi dynodi eu bod wedi ymwneud â'r broses fonitro i asesu pa mor gryf yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno: bod y gofynion monitro'n addas ar gyfer lefel y cyllid; bod yr amodau monitro wedi'u diffinio'n glir; bod y broses monitro wedi cael ei chynnal mewn modd amserol; a'u bod, ar y cyfan, yn fodlon â'r broses monitro grantiau.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 7, cafodd yr holl ddatganiadau sgoriau cadarnhaol rhwng 68 a 70 y cant. Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol uchaf (70 y cant) mewn ymateb i'r datganiad bod y gofynion monitro'n addas ar gyfer lefel y cyllid.

Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol isaf (68 y cant) ar gyfer y datganiad bod y broses monitro wedi cael ei chynnal mewn modd amserol. Cafodd y datganiad 'roedd yr amodau monitro wedi'u diffinio'n glir' sgôr cadarnhaol o 68 y cant hefyd, yn ogystal â'r sgôr negyddol uchaf (16 y cant).

Ffigur 7: Boddhad â'r broses monitro grantiau



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 195, 196, 196, 196

Y broses hawliadau a thaliadau


Cafodd ymatebwyr a oedd wedi dynodi iddynt ymwneud â'r broses hawliadau a thaliadau chwe datganiad a oedd yn gofyn am eu barn ynglŷn â'r canlynol: pa un a oedd y ffurflenni hawlio yn hawdd eu defnyddio; pa un a broseswyd taliadau mewn modd amserol; pa un a oeddent yn gwybod â phwy i gysylltu os oedd ganddynt gwestiwn neu os oedd arnynt angen cymorth gyda hawliadau neu daliadau; pa un a oedd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani i ategu eu hawliadau ariannol yn briodol; pa un a oeddent yn fodlon gyda'r modd yr ymdriniwyd â'u hawliadau ariannol; ac, ar y cyfan, pa un a oeddent yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 8, rhoddodd yr ymatebwyr sgoriau cadarnhaol uchel o fwy na 70 ar gyfer yr holl ddatganiadau. O'r holl gwestiynau ynglŷn â boddhad yn yr arolwg, hwn oedd y maes yr oedd yr ymatebwyr, ar gyfartaledd, fwyaf cadarnhaol yn ei gylch.

Roedd sgoriau cadarnhaol yn amrywio o 73 y cant i 87 y cant. Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol uchaf ar gyfer gwybod â phwy i gysylltu os oedd ganddynt gwestiwn neu i gael cymorth gyda hawliadau neu daliadau; y datganiad hwn gafodd y sgôr negyddol isaf hefyd, sef 3 y cant.

Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol isaf (73 y cant) a'r sgôr negyddol uchaf (15 y cant) ar gyfer y datganiad a oedd yn gofyn pa un a oedd ffurflenni hawlio'n hawdd i'w defnyddio.

Ffigur 8: Boddhad â'r broses hawliadau a thaliadau



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 211, 210, 209, 211, 210, 210

Boddhad â'r cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru


Cafodd ymatebwyr a oedd wedi cael cyswllt â swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwneud cais am grant neu dderbyn grant bedwar datganiad a oedd yn gofyn iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno: ei bod yn hawdd cael gafael ar yr unigolyn cywir yn Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth; bod y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn eglur; bod y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn amserol; ac i ba raddau yr oeddent, ar y cyfan, yn fodlon â'r cymorth a gawsant gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 9, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon ar y cymorth gan swyddogion, gyda'r sgoriau cadarnhaol yn amrywio o 73 i 77 y cant. Cofnodwyd y sgôr cadarnhaol uchaf (77 y cant) ar gyfer y datganiad ei bod yn hawdd cael gafael ar yr unigolyn cywir yn Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth, er bod hwn hefyd wedi cael sgôr negyddol ychydig yn uwch (12 y cant) na'r datganiadau eraill. Y

datganiad ynglŷn â boddhad cyffredinol â'r cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau gafodd y sgôr negyddol isaf (wyth y cant).

Rhoddwyd y sgôr cadarnhaol isaf (73) ar gyfer y datganiad ynglŷn â chymorth amserol gan swyddogion grantiau ac ar gyfer y datganiad ynglŷn â boddhad cyffredinol yn y maes hwn.

Ffigur 9: Boddhad â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 205, 208, 208, 208

Sylwadau a ddarparwyd ynglŷn â phroses grantiau Llywodraeth Cymru

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr ddarparu sylwadau ynglŷn â'r broses grantiau, gan nodi eu profiadau cyffredinol o'r broses ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

Fe wnaeth tua hanner y derbynyddion grantiau ddarparu sylwadau. Roedd cyfran o'r sylwadau'n gadarnhaol, gydag ymatebwyr yn nodi eu bod yn hapus gyda'r lefelau o wasanaeth a chymorth a ddarparwyd ar eu cyfer trwy gydol y broses. Roedd rhai'n teimlo bod y broses yn syml iawn. Roedd rhai'n fodlon ar dryloywder y broses a dywedodd rhai ei bod yn hawdd neu'n haws na'r disgwyl. Fodd bynnag, darparwyd sylwadau llai cadarnhaol hefyd, sy'n amlygu peth anghysondeb o ran profiadau; a rhai heriau mewn perthynas â'r canlynol: amseroldeb, y prosesau hawliadau a thaliadau; a newidiadau diweddar i gyllid grant. O ystyried mai diben yr ymchwil yw

canolbwyntio ar feysydd i'w gwella; cafodd sylwadau llai cadarnhaol ymatebwyr eu harchwilio'n fanwl, fel y nodir isod.

Cymorth gan swyddogion

Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod wedi cael cymorth da yn gyson gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru. Dywedodd ymatebwyr fod Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gefnogol, yn effeithlon, yn gwrtais ac yn hawdd iawn cysylltu â hwy dros y ffôn neu drwy'r e-bost. Canfu rhai fod eu hymholiadau wedi cael eu datrys yn gyflym ac fe nodon nhw fod swyddogion yn 'canolbwyntio ar ddatrysiadau'. Manylodd rhai fod y cymorth hwn wedi dechrau cyn iddynt gyflwyno cais ar ffurf negeseuon atgoffa a chymorth amserol i osgoi llenwi'r ffurflenni'n wael neu eu cyflwyno'n hwyr. Dywedodd rhai fod swyddogion wastad yn barod i'w cynorthwyo pan oedd agweddau ar y broses grantiau'n her. Dywedodd nifer o ymatebion fod cyfarfodydd monitro'n cael eu rheoli'n dda a'u bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i adrodd y 'stori' y tu ôl i'r cyllid grant, nid dim ond darparu gwybodaeth amheronol ffeithiol ar daflen fonitro. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod dulliau cydweithredol weithiau'n arwain at fwy o ymdeimlad o gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus.

Er bod ymatebwyr yn ystyried bod swyddogion yn gefnogol, dywedodd nifer o ymatebwyr fod newidiadau mewn personél wedi achosi her o ran colli cof corfforaethol, gan ei gwneud yn ofynnol i dderbynyddion ailadrodd gwybodaeth ac ailddatblygu perthnasoedd gweithio â rheolwyr grantiau newydd. Roedd rhai wedi canfod bod cyfarfodydd yn cael eu canslo a'u bod yn anodd i'w haildrefnu fel sgîl-effaith trosiant staff. Ar ben hynny, roedd rhai wedi profi oedi cyn ymateb neu, ar adegau, ddiffyg ymateb i negeseuon e-bost, gyda dim trefniadau i ddirprwyo i aelodau eraill o staff neu bwynt cyswllt arall. Roedd rhai wedi sylwi hefyd ar wahaniaethau o ran dibynadwyedd y cyngor pan oedd swyddogion profiadol yn cael eu disodli gan rywun â llai o brofiad. Hefyd, dywedodd rhai fod swyddogion a oedd yn monitro cyllid grant yn tueddu i fod yn wahanol i'r rhai a oedd yn dyfarnu grantiau, ac felly bod cysondeb y cymorth yn gallu amrywio.

“Mae'r bobl yn Llywodraeth Cymru sy'n helpu ac yn ymdrin â'r grantiau'n dda iawn, yn gwybod beth yw beth, yn dîm gwyh”

-Ymatebydd o'r sector preifat

“Ar y cyfan mae fy nghyswllt i â Llywodraeth Cymru yn dda iawn. Rwyf wastad yn gallu siarad gyda rhywun ac maen nhw wastad yn gallu helpu gydag unrhyw ymholiadau.”

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

“Rwyf wedi ymwneud â swyddogion mewn nifer o ganghennau ac mae prosesau monitro, hawliadau a thaliadau wedi bod yn syml ac mae'r staff wedi bod yn barod eu cymwynas ac yn gefnogol. Ymdrinnir ag ymholiadau'n gyflym.”

- Ymatebydd o'r Trydydd Sector

“Roedd y broses yn syml er mai hwn oedd fy mhrofiad cyntaf o wneud cais am grant. Roedd y cymorth a'r arweiniad gan y tîm cymorth yn amhrisiadwy.”

- Ymatebydd o'r sector preifat

“Bu nifer o newidiadau mewn Rheolwyr Cyfrifon ers i mi fod yn rheoli'r grant, sy'n golygu fy mod wedi gorfod meithrin perthnasoedd a dealltwriaeth o'r dechrau drosodd a throsodd.”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“Mae nifer o gyfarfodydd wedi cael eu canslo ac mae wedi bod yn weddol anodd trefnu dyddiad ar gyfer yr adolygiad diwedd blwyddyn. Rwy'n tybio mai'r rheswm dros hyn yw bod y swyddog polisi wedi newid; cyn hynny roedd popeth yn iawn.”

- Ymatebydd o'r Trydydd Sector

Amseroldeb

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ynglŷn ag amseroldeb y broses grantiau fel problem, yn enwedig mewn perthynas â cheisiadau ac anfon llythyrau dyfarnu.

Ceisiadau

Dywedodd rhai ymatebwyr fod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno cais da yn rhy dynn erbyn bod y canllawiau ynghylch grantiau wedi'u cyhoeddi'n llawn. Dywedodd eraill y gallai dyddiadau cau ar gyfer gwneud ceisiadau am grantiau gael eu hamseru'n well. Er enghraifft, roedd dyddiadau cau yn wythnos gyntaf mis Medi yn golygu mai dim ond cyfnod y gwyliau oedd ar gael i gwblhau'r ffurflenni cais. Roedd hyn yn arbennig o anodd i sefydliadau bach neu'r rhai yr oedd arnynt angen mewnbwn gan bartneriaid cyflawni eraill.

Dywedodd rhai fod Llywodraeth Cymru yn araf yn prosesu ceisiadau am grantiau ar ôl i ymgeiswyr eu cyflwyno'n brydlon, gydag un yn gwneud y sylw ei fod wedi cael ei hysbysu ynghylch y canlyniad bum mis ar ôl y dyddiad cyflwyno cychwynnol. Roedd yn peri rhwystredigaeth pan oedd Llywodraeth Cymru yn methu â chydymffurfio â'i therfynau amser ei hun yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau ynghylch grantiau ac awgrymodd rhai y dylai'r broses gael ei chwblhau'n gyflymach ac y dylai'r

cyfathrebu fod yn well pan nad oedd hyn yn bosibl. Yn achlysurol, er gwaethaf oedi cyn penderfynu, roedd y ffrâm amser a oedd yn cael ei chaniatáu i gyflawni'r prosiectau'n parhau'n ddigyfnewid. Roedd ymgeiswyr yn y sector preifat yn teimlo rhwystredigaeth pan oedd amseroldeb gwael yn cael effeithiau negyddol ar waith arfaethedig i ddatblygu cynnyrch, gan arwain at deimladau bod y broses grantiau'n anghyson ag anghenion y sector preifat. Roedd rhai'n teimlo y byddai ymlyniad gwell gan Lywodraeth Cymru â'r amserlen ddatganedig yn lleihau'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer cyflawni.

"Amseru yw'r broblem bob amser; rydym yn cael terfynau amser eithriadol o dynn ar gyfer ceisiadau ac yna rhagor o wybodaeth ond mae'r penderfyniadau'n cymryd gormod o amser yn fy nhyb i ac weithiau'n ein cyrraedd ar ôl dechrau amser cyflawni'r rhaglen."

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

"Mae'r cyfathrebiadau ynghylch cyllid grant yn aml wedi methu â chydymffurfio â'r amserlenni a gynigiwyd yn wreiddiol."

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

"Mae cyflymder y broses yn adlewyrchu gofyniad biwrocrataidd y sector cyhoeddus, nid y gofyniad am gyflymder mewn sefydliad mwy ystwyth. Mae angen i gyllid gael ei sianelu'n gyflymach er mwyn cau'r bwloch mewn disgwyliadau rhwng y ddau endid. Yn y pen draw, er mwyn i'r Llywodraeth roi cymorth gwell i fusnesau, mae angen i'r Llywodraeth gyflymu pethau, bod yn fwy rhagweithiol ac yn fwy hyblyg."

- Ymatebydd o'r sector preifat

Llythyrau Dyfarnu

Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau am y diffyg amseroldeb wrth anfon Llythyrau Dyfarnu, sy'n ategu'r canfyddiadau yn Ffigur 6. Roedd hyn yn arbennig o wir am y sector cyhoeddus a ddywedodd bod Llythyrau Dyfarnu amhrydlon yn cael sgîl- effeithiau o ran cadw staff ar gyfer rhaglenni parhaus nad oedd y cyllid ar eu cyfer yn cael ei gadarnhau ddigon ymlaen llaw. Nodwyd mai dim ond ar ôl cael rhybudd ysgrifenedig swyddogol o gyllid ar gyfer y rhaglen (yn hytrach na'r rhybudd o gyllid dangosol sy'n debygol o fod wedi cael ei ddarparu'n gynharach), a oedd, mewn rhai achosion, yn dod i law ddyddiau yn unig cyn diwedd y cyfnod cyllido blaenorol, y mae contractau staff yn gallu cael eu hadnewyddu. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn gorfod parhau i redeg rhaglenni ag ewyllys da heb gael cadarnhad o'r cyllid nes bod cyfnod y rhaglen wedi hen ddechrau mewn rhai achosion. Dywedodd eraill, mewn achosion lle na fu hyn yn bosibl, bod oedi cyn anfon Llythyrau Dyfarnu wedi

arwain at ddarpariaeth ddatgysylltiedig o ran gwasanaethau y mae grwpiau o bobl agored i niwed yn aml yn dibynnu arnynt.

Roedd hyn hefyd yn achosi oedi o ran cynllunio a chyflawni blaenoriaethau nes bod cadarnhad o union swm y cyllid wedi dod i law. Nid oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol y byddai'r cyllid ar gyfer rhaglen barhaus yn cael ei leihau nes eu bod wedi cael eu Llythyr Dyfarnu, a dywedasant nad oedd unrhyw esboniad yn cael ei roi o'r sail resymegol dros leihau'r cyllid ychwaith.

“Mae ar Awdurdodau Lleol angen cael llythyrâu sy'n cadarnhau cyllid grant yn brydlon. Nid yw mis Mawrth neu ar ôl hynny'n amser cadarnhau derbyniol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno gan ei fod yn effeithio ar forâl, cadw staff ac yn arwain at ddarparu gwasanaethau datgysylltiedig ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.”

- Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“Mae'r amserlenni ar gyfer cadarnhau dyraniadau cyllido'n rhy fyr i allu gwneud penderfyniadau'n effeithiol ynghylch sut i wneud y defnydd gorau posibl o'r grant neu leihau'r ddarpariaeth os yw'r cyllid yn cael ei leihau.”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“Rydym yn dal i ddisgwyl am y llythyr cynnig grant ffurfiol er ein bod bellach yn yr 2il chwarter. Rydym yn dibynnu â phob ewyllys da ar y cadarnhad ysgrifenedig y bydd hwn yn cael ei anfon atom ond bod oedi wedi bod gyda hynny. Gellid gwella'r broses yn y maes hwn.”

- Ymatebydd o'r Trydydd Sector

Cylchoedd cyllido blynyddol

Roedd llawer o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn teimlo y byddai cynyddu cylchoedd cyllido o un i ddwy neu dair blynedd yn gallu helpu i gyflawni mwy o brosiectau strategol gan leihau'r costau gweinyddol a recriwtio sy'n gysylltiedig ag adnewyddu'n flynyddol. Roedd rhai'n teimlo bod cylchoedd blynyddol yn arwain at newidiadau mwy mynych ym meini prawf grantiau o un flwyddyn i'r llall, gyda rhai'n nodi bod gofynion grantiau'n mynd yn fwy cymhleth dros amser, neu'n galw am fentrau cyflawni arloesol er bod mentrau yn y gorffennol wedi bod yn llwyddiannus ac y profwyd eu bod yn gweithio o bosibl.

“Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried newid o ddyfarniadau cyllido blynyddol i rai sy'n para am ddwy neu dair blynedd o leiaf gan y bydd hyn yn sicrhau mwy o werth am arian; bydd yn atal staff rhag gadael oherwydd sicrwydd swydd a bydd yn arbed cyllid i Lywodraeth Cymru trwy leihau costau

gweinyddol.”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“a minnau wedi bod yn gysylltiedig â grantiau am nifer o flynyddoedd mewn ystod o feysydd maent yn newid byth a beunydd sy'n amlwg yn broblem; ni fu pethau erioed yr un fath o un flwyddyn i'r llall! Mae amseru wastad yn broblem – mae anfon dogfennau'n hwyr, meini prawf diwygiedig a dyfarniadau hwyr a GRANTIAU BLYNYDDOL yn cyfuno i wneud pethau yn anos nag y mae angen iddynt fod hyd yn oed.”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

Hawliadau, taliadau a monitro

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gellid gwneud gwelliannau i'r prosesau hawliadau, taliadau a monitro.

Dywedodd rhai fod ffurflenni hawlio'n gallu bod yn ailadroddus a chymhleth, gan olygu bod angen llawer o amser i'w cwblhau. Dywedodd eraill nad yw rhai o'r manylion sy'n ofynnol ar gyfer hawliadau i'w gweld yn berthnasol i gyflawni'r canlyniadau; er enghraifft gofyn am enwau a swydd-ddisgrifiadau staff a gyllidir gan y grant yn hytrach na gadael i dderbynyddion egluro'r holl waith y maent yn ei gyflawni â'r grant. Cyfeiriodd rhai at y terfyn amser byr ar ôl diwedd chwarter i gyflwyno ffigyrau gwirioneddol i ategu hawliadau. Darparwyd sylwadau ynghylch yr anhawster gyda llofnodion 'gwlyb' pan fo mwy nag un llofnodwr. Gofynnodd rhai am gydnabyddiaeth awtomataidd trwy'r e-bost ar ôl derbyn hawliadau fel bod derbynyddion grantiau'n ymwybodol bod hawliadau wedi cael eu derbyn yn swyddogol ac y byddant yn cael eu prosesu o fewn amserlen benodol.

Roedd nifer o ymatebwyr wedi profi oedi maith rhwng cyflwyno hawliadau a chael taliadau, yn aml heb rybudd nac eglurhad pam fod y grant wedi cael ei gadw'n ôl o bosibl, a dim ond pan oeddent yn mynd ar ôl swyddogion yr oedd hawlyddion yn cael gwybod y rhesymau, neu'n cael taliad.

Dywedodd rhai fod adroddiadau monitro chwarterol yn rhy feichus a mynych. Roedd rhai'n teimlo nad oedd ffurflenni monitro'n cael eu dosbarthu'n brydlon. Dywedodd rhai ymatebwyr bod gofynion monitro'n aml yn cael eu cadarnhau dim ond ar ôl i raglenni ddechrau, gan ei gwneud yn anodd casglu data'n ôl-weithredol. Roedd rhai'n teimlo rhwystredigaeth pan oedd gan brosiectau tebyg a gyllidir â grantiau Llywodraeth Cymru amserlenni gwahanol a dulliau monitro gwahanol.

Nododd rhai fod newidiadau'n cael eu gwneud o hyd i hawliadau a ffurflenni monitro o fewn grantiau dros amser, gan ei gwneud yn anos datblygu dull systematig o'u cwblhau.

“Mae'r broses monitro a hawliadau'n aneglur a phedantig iawn....”

-Ymatebydd o'r sector preifat

“Mae'r dyddiad ar gyfer ffurflenni hawlio chwarterol ... yn afrealistig o fyr. Er enghraifft eleni roedd rhaid inni ei chyflwyno ar ddydd Llun 2 Gorffennaf er mai dim ond ar y dydd Sadwrn y daeth y chwarter i ben ac nid yw hyn yn gadael llawer o amser o gwbl i wneud y gwaith cyfrifyddu chwarterol.”

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

“Pan anfonir ffurflenni hawlio, byddai'n ddefnyddiol cael cydnabyddiaeth bod y ffurflenni wedi cael eu derbyn a'u bod yn cael eu prosesu.”

- Ymatebydd o'r Trydydd Sector

Newidiadau i gyllid grant

Roedd nifer o ymatebwyr wedi profi newidiadau diweddar i gynlluniau grant hirsefydlog, er enghraifft roedd nifer o ffrydiau grant wedi cael eu cwtdogi neu eu cyfuno. Roedd rhai ymatebwyr yn gadarnhaol pan oedd darparwr y grant wedi ymgynghori â hwy a ffrydiau grantiau'n cynnwys ffocws gwell ar ganlyniadau; er bod rhai wedi dweud bod newidiadau wedi cael eu gwneud heb ddigon o ymgynghori, neu gyfathrebu, â derbynyddion grantiau. Felly, roedd rhai newidiadau'n cael eu hystyried yn rhai 'o'r brig i lawr', gan arwain at ddryswch ac ymdeimlad bod hynny'n groes i'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ben hynny, roedd rhai'n teimlo bod newidiadau polisi weithiau'n cael gormod o ddylanwad o ran pa grantiau oedd yn cael eu rhoi neu eu torri. Er gwaethaf mentrau i uno ffrydiau grant, dywedodd rhai ei bod weithiau'n wir bod grantiau bach ychwanegol yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach, a'r rheiny'n anodd i'w gweinyddu erbyn y dyddiad cau. Er bod arian ychwanegol yn cael ei groesawu, roedd teimlad bod hysbysu'n hwyr yn gallu achosi her o ran cyflawni'r canlyniadau bwriadedig.

“Mae newidiadau diweddar i grantiau'n aneglur, yn cael eu hamseru'n wael, yn cael eu cyfleu'n wael, yn digwydd heb ymgynghori â rhanddeiliaid, yn enwedig cyrff statudol eraill (ac eithrio ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud)...”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“Bu methiant llwyr o ran cyfathrebu â derbynyddion grantiau a methiant i fynd ati go iawn i gyd-ddylunio rhaglenni grantiau newydd. Roedd digwyddiadau a

oedd yn cael eu hysbysebu fel rhai cyd-ddylunio yn ymwneud yn fwy â dweud wrth y trydydd sector sut yr oedd y rhaglen grant newydd yn mynd i weithredu... Dylai Llywodraeth Cymru fod yn cofleidio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn."

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

Sylwadau eraill a gafwyd am y broses grantiau

Er bod llawer o ymatebwyr yn fodlon ar y broses grantiau, roedd profiad rhai yn fwy amrywiol. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y broses gyffredinol yn rhy gymhleth, yn enwedig ar gyfer grantiau llai lle'r oedd yn ymddangos bod yr amser a'r ymdrech a oedd yn ofynnol yn anghymesur â gwerth y grant. Roedd hyn yn wir yn arbennig yn achos rhai ymatebwyr o'r sector preifat a oedd yn teimlo rhwystredigaeth pan oedd rhaid iddynt dalu i ymgynghorwyr allanol am arwain y broses o wneud cais am grant ar eu rhan, gan felly leihau gwerth cyffredinol y grant a ddyfernir. Ar ben hynny, dywedodd ymatebwyr o'r sector preifat ei bod yn anodd canfod pa gymorth ariannol oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhai'n teimlo y byddai un pwynt cyswllt canolog i gyfeirio gwahanol ddiwydiannau neu fusnesau o wahanol feintiau at yr amryw fathau o gymorth yn ddefnyddiol iawn i sicrhau profiad cyson.

Dywedodd llawer o dderbynyddion grantiau hefyd fod ganddynt brofiad amrywiol ar draws y grantiau gwahanol, er y bydd dyblygu a chysondeb yn cael eu harchwilio mewn mwy o fanylder isod yn adran 5.1.

"Roedd y broses yn gymhleth ac yn gostus ac yn y pen draw nid oedd yn werth yr amser a'r ymdrech a gymerodd i gael y swm o arian a gafwyd. Mae'r broses o wneud cais yn gymhleth heb fod angen ac yn dilyn proses yr oedd yn amhosibl i'w chwblhau'n iawn heb brofiad o ysgrifennu ceisiadau am grantiau gan y Llywodraeth. Bu'n rhaid i mi dalu i sefydliad allanol gwblhau'r cais ar ein rhan"

-Ymatebydd o'r sector preifat

"Ar gyfer y cyfnod dan sylw fe gawsom 3 grant gwahanol gan Lywodraeth Cymru. Mae rhai'n amserol iawn gyda thaliadau a llythyron cynnig cyflym, tra bo eraill yn araf iawn wir... Hefyd, ar gyfer 2 o'r grantiau rydym yn cael taliadau ymlaen llaw, yn unol â'r compact cyllido, ond gydag un grant rydym yn cael ôl-daliadau. Mae'n amrywio'n arw a bod yn onest."

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

"Roedd proses y grant yn rhy gymhleth ar gyfer grant o £5000 y gofynnwyd amdano. Roedd gormod o fonitro. Mae'r taliad wedi cymryd 6 mis hyd yma ac

rydym yn dal heb gael taliad”
-Ymatebydd o’r sector cyhoeddus


5 Meysydd ychwanegol y rhoddwyd sylw iddynt yn yr arolwg

Mae’r adran ganlynol o’r adroddiad yn cyflwyno adborth ymatebwyr ar eu profiadau o gysondeb a dyblygu gyda grantiau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn archwilio’u profiadau, a gwersi a ddysgwyd, o ddefnyddio platfformau ar-lein ar gyfer grantiau o ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru a’r tebygolrwydd y bydd ymatebwyr yn defnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

5.1 Cysondeb a dyblygu o fewn y broses grantiau

Gofynnwyd i dderbynyddion grantiau cyfredol a oedd ganddynt hwy’n bersonol brofiad o wneud cais am fwy nag un neu dderbyn mwy nag un o Grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd bron i ddwy ran o dair (64 y cant) wedi gwneud cais am fwy nag un neu wedi derbyn mwy nag un o grantiau Llywodraeth Cymru (Ffigur 10).

Ffigur 10: Canrannau’r ymatebwyr a oedd wedi ymgeisio am fwy nag un, neu wedi cael mwy nag un o Grantiau Llywodraeth Cymru




Nifer yr ymatebwyr: 253

Cafodd ymatebwyr a ddynododd eu bod wedi ymgeisio am fwy nag un neu wedi derbyn mwy nag un grant gwestiynau ychwanegol ynglŷn â chysondeb ar draws gwahanol Grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gallu ymhelaethu ar eu hymatebion ag atebion penagored hefyd.

Fel y dangosir yn Ffigur 11, dynododd ymatebwyr fod y lefel uchaf o gysondeb yn y cyngor yr oeddent wedi'i gael gan swyddogion Llywodraeth Cymru (73 y cant yn dweud ei fod wastad neu weithiau'n gyson) a bod y lefel isaf o gysondeb yn y prosesau monitro (56 y cant yn dweud eu bod wastad neu weithiau'n gyson). Cafodd cysondeb prosesau eraill (ffurflenni cais, y broses ar gyfer cyflwyno ceisiadau a gwneud hawliadau) sgoriau o 64 y cant, 60 y cant, a 62 y cant yn y drefn honno.


Ffigur 11: Cysondeb ar draws Grantiau Llywodraeth Cymru:



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 151, 150, 149, 149, 146

Wedyn gofynnwyd i'r ymatebwyr hyn a oedd ganddynt brofiad personol o dderbyn mwy nag un o Grantiau Llywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol. Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o dair (65 y cant) fod ganddynt (Ffigur 12).

Ffigur 12: Canran yr ymgeiswyr am fwy nag un neu dderbynyddion mwy nag un o Grantiau Llywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol




Nifer yr ymatebwyr: 163

Wedyn cafodd yr ymatebwyr a ddynododd eu bod wedi gwneud cais am fwy nag un neu wedi derbyn mwy nag un grant yn yr un flwyddyn ariannol gwestiynau ychwanegol a oedd yn gofyn a oeddent wedi gorfod darparu gwybodaeth ddyblyg.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 13, dywedodd 78 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi gorfod darparu gwybodaeth ddyblyg yn ystod cam y ffurflen gais; gyda thua hanner yr ymatebwyr yn dweud eu bod wedi darparu gwybodaeth ddyblyg yn ystod prosesau monitro'r grantiau (46 y cant), wrth wneud hawliad neu gasglu taliad (49 y cant) neu wedi egluro'r un mater wrth wahanol Swyddogion Grant (49 y cant).

Ffigur 13: Ymgeiswyr am, neu dderbynyddion mwy nag un o grantiau Llywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol a ddarparodd yr un wybodaeth fwy nag unwaith:



Nifer yr ymatebwyr: 83

Sylwadau ynglŷn â chysondeb a dyblygu ar draws grantiau Llywodraeth Cymru

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi derbyn mwy nag un grant ddarparu mwy o fanylion am eu profiadau gyda chysondeb a dyblygu mewn perthynas â'r grantiau yr oeddent wedi'u derbyn neu eu gweinyddu.

Cysondeb

Dywedodd ymatebwyr fod yr amrywiaeth o grantiau'n golygu bod ganddynt yn baramedrau gwahanol fel rheol, gydag amrywiadau rhwng yr adrannau yn Llywodraeth Cymru sy'n dyfarnu'r grant, pwy yw rheolwr y grant (a faint o brofiad neu frwdfrydedd sydd gan yr unigolyn hwn), a maint y grant. Roedd rhai'n teimlo rhwystredigaeth pan fo anghysonderau i'w gweld fel pe baent yn wrthreddfol, er enghraifft gofynion mwy beichus o ran dogfennaeth ategol ar gyfer grantiau llai o'u cymharu â rhai mwy o lawer. Dywedodd eraill fod yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau'n anghyson gyda rhai penderfyniadau i ddyfarnu grantiau'n cael eu gwneud yn gyflym ac eraill yn gallu cymryd dros 6 mis.

Roedd rhai wedi profi prosesau gwahanol yn ystod y cam cymeradwyo ar gyfer grantiau cysylltiedig. Lle'r oedd synergeddau cryf rhwng grantiau, roedd teimlad y byddai o fudd defnyddio ffurflenni mwy cyson ar gyfer y rhain, yn enwedig ar gyfer monitro. Dywedodd rhai fod cynlluniau a dyddiadau cau'r ffurflenni hyn yn wahanol. Ar ben hynny, er eu bod yn gymharol syml, roedd y prosesau ar gyfer potiau grantiau ychwanegol ochr yn ochr â'r grantiau hyn a oedd mewn bodolaeth yn barod yn wahanol.

Dywedodd rhai fod addasiadau a newidiadau wedi cael eu gwneud o un flwyddyn i'r llall o fewn yr un cynllun grant, a bod hyn wedi peri mwy o rwystredigaeth nag anghysonderau rhwng grantiau gwahanol. Er enghraifft, roedd newidiadau i'r gofynion, meini prawf cymhwysedd neu symiau'r cyllid wedi achosi anawsterau o ran gwneud cynlluniau mwy hirdymor.

Hefyd, roedd rhai'n teimlo bod anghysonderau ar draws grantiau Llywodraeth Cymru yn llai o broblem nag yn erbyn tirwedd gyffredinol grantiau'r sector cyhoeddus trwy gyrff statudol eraill, yn enwedig lle nad oedd y nodau neu'r canlyniadau cyffredinol i'w gweld yn gyson. Dywedodd rhai fod trefn lle mae grantiau'n cael eu dyfarnu trwy gyfryngwyr yn ychwanegu at anghysonderau.

Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn ystyried bod anghysondeb yn broblem. Dywedodd rhai nad oeddent yn gwneud ceisiadau rheolaidd am grantiau a bod hyn yn golygu y byddai wastad yn ymddangos yn frawychus ac anghyfarwydd, ac na fyddai disgwyl i grantiau a ddyfernir flynyddoedd ar wahân fod yn gyson â'i gilydd. Roedd rhai'n teimlo bod y gwahaniaethau mewn blaenoriaethau polisi sy'n tanategu cynlluniau grantiau a natur anochel newidiadau dros amser yn golygu bod derbynyddion yn disgwyl lefel o wahanol feini prawf dyfarnu neu fonitro. Nid oedd derbynyddion a oedd yn ymwneud ag ystod eang o grantiau'n disgwyl cysondeb drwyddi draw, ond fe wnaethant nodi y gallai cysondeb o ran rhai agweddau, e.e. monitro, greu mwy o amser i ddarparu gwasanaethau ar gyfer buddiolwyr y grantiau.

Roedd rhai'n teimlo bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell gyson ar gyfer cymorth, a bod y cymorth a roddir yn nodweddiadol yn bwysicach nag unrhyw bryderon ynghylch anghysonderau gyda chanllawiau a llanw ffurflenni. Fodd bynnag, lle bu trosiant staff, roedd hyn yn arwain o bryd i'w gilydd at ddulliau anghyson o fewn timau grantiau ac yn achosi peth dryswch pan nad oedd gwybodaeth a rannwyd gyda'r person blaenorol wedi cael ei throsglwyddo.

“Ymddengys fod diffyg cysondeb ar draws pob maes. Mae'r ffaith bod systemau grantiau'n newid yn gyson yn flynyddol yn golygu mai anghysondeb yw'r norm.”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“Ni fu gennym erioed broblem gyda chysondeb”

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

“Nid oedd defnyddio gwybodaeth gyhoeddedig neu wybodaeth ar-lein yn dda lle'r oedd cysondeb yn y cwestiwn. Fodd bynnag, wrth siarad gyda phobl yn Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu ac yn monitro proses y grant – roedd cysondeb yn 100%, dim problemau o gwbl.”

-Ymatebydd o'r sector preifat

“Gan ein bod yn awdurdod lleol rydym yn derbyn llawer o Grantiau Llywodraeth Cymru ac mae gan bob adran/is-adran drefniadau gwahanol ar gyfer monitro a hawlio'r grantiau. Mae ar rai adrannau eisiau peth wmbredd o fanylder ac nid oes ar eraill eisiau cymaint. Nid oes perthynas rhwng swm y grant a swm y gwaith papur/y dystiolaeth”

-Ymatebydd o'r sector cyhoeddus

“[Mae'r broses grantiau'n] anghyson ar y cyfan. Ond nid wyf yn siŵr a yw hyn yn bwysig. Mae gan y grantiau ddibenion gwahanol – nid ydynt yn gallu bod yn gwbl gyson.”

- Ymatebydd o'r sector preifat

Darparu gwybodaeth ddyblyg

Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod darparu'r un wybodaeth ar gyfer ceisiadau am wahanol grantiau, yn nodweddiadol ailadrodd manylion cyswllt neu wybodaeth ariannol sylfaenol, yn broblem nac yn feichus. Pan oedd rhaid darparu darnau mwy o wybodaeth fwy nag unwaith, dywedodd rhai eu bod yn gallu aildefnyddio'r wybodaeth a theilwra elfennau i ganolbwyntio ar ofynion penodol y grant hwnnw. Roedd gan grantiau gwahanol ddibenion gwahanol felly byddai'r rhan fwyaf o'r cais wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer y grant. Roedd eraill yn teimlo, at ei gilydd, bod materion eraill megis newidiadau ym meini prawf grantiau a llythyrau dyfarnu hwyr yn fwy o broblem.

Roedd rhai'n teimlo bod dyblygu wedi cynyddu ers cyflwyno dulliau mwy holistaidd ar gyfer rhaglenni grantiau. Dywedodd ymatebydd arall ei fod wedi meddwl y byddai'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cynnal cofnod canolog o ddogfennau allweddol cyfoes, sy'n hygyrch i'r rheolwyr grantiau perthnasol, fel na fyddai angen i dderbynyddion grantiau ddarparu'r un wybodaeth fwy nag unwaith. Roedd elfen o chwilfrydedd pan nad oedd gwybodaeth derbynyddion grantiau'n cael ei rhannu'n fwy eang ar draws timau grantiau Llywodraeth Cymru.

"Mae'r grantiau'n wahanol ac mae angen gwybodaeth adrodd wahanol arnynt fel nad oes llawer o ddyblygu. Efallai fod rhai tybiaethau yn uwch yn y sefydliad bod dyblygu'n digwydd o ran yr wybodaeth a ddarperir ond nid yw hyn yn wir gan fod yr hyn sydd i'w weld fel pe bai'n gyfystyr ag adrodd tebyg yn ymwneud ag unigolion gwahanol ac yn diwallu anghenion gwahanol"

- Sefydliad yn y sector cyhoeddus


"byddem yn disgwyl bod cofnod canolog o ddogfennau a gwybodaeth allweddol yn cael ei gadw yn Llywodraeth Cymru; byddai hynny wedyn yn golygu nad oes angen inni gyflwyno'r un wybodaeth dro ar ôl tro. Ar ben hynny, rhaid cydnabod yr adnoddau yn Llywodraeth Cymru y mae'n rhaid bod gwirio'r un wybodaeth drosodd a throsodd yn eu defnyddio."

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

5.2 Cyllid grant o ffynonellau eraill gan ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein

Cafodd yr holl ymatebwyr i'r arolwg gwestiynau am eu profiadau o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein i wneud ceisiadau am grantiau, neu dderbyn grantiau, gan gyrrff eraill. Dim ond 36 y cant o'r ymatebwyr ddywedodd fod ganddynt brofiad o wneud ceisiadau am grantiau gan ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein o ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru (Ffigur 14).


Ffigur 14: Profiad o wneud ceisiadau am gyllid grant yn ddigidol o ffynonellau eraill



Nifer yr ymatebwyr: 346

O'r ymatebwyr hyn, roedd 90 y cant wedi gwneud ceisiadau am gyllid grant, roedd 64 y cant wedi darparu gwybodaeth fonitro ac roedd gan 61 y cant brofiad o'r broses taliadau gan ddefnyddio rhyngwyneb ar-lein. Dewisodd dau y cant 'Arall' fel ateb ond ni wnaethant fanylu ar yr elfennau eraill o'r broses grantiau yr oeddent wedi'u cwblhau ar-lein.

Ffigur 15: Camau o'r broses grantiau y cafwyd profiad ohonynt ar-lein neu'n ddigidol gyda chyrrff eraill



Nifer yr ymatebwyr: 118

Sylwadau am brofiad o wneud ceisiadau am grantiau a derbyn grantiau ar-lein

Gofynnwyd i ymatebwyr ymhelaethu ar yr hyn yr oeddent **yn ei hoffi fwyaf** am wneud cais am grant neu dderbyn cyllid grant ar-lein neu'n ddigidol. Dywedodd y mwyafrif mai'r hyn yr oeddent yn ei hoffi fwyaf oedd y rhwyddineb defnydd. Fe ymhelaethodd rhai gan ddweud bod strwythur y ffurflen ar-lein yn ei gwneud yn haws, yn gyflymach ac yn symlach cwblhau cais o'i gymharu â cheisiadau ar bapur neu brosesydd geiriau. Roedd rhai'n teimlo bod gwneud ceisiadau ar-lein yn tueddu i fod yn symlach am fod Cwestiynau Cyffredin neu ganllawiau perthnasol yn gallu cael eu cyrchu ar bwyntiau priodol yn y system a bod uchafsymiau geiriau wedi'u pennu. Roedd rhai platfformau'n cynnig y gallu i wirio gwallau'n awtomatig (er enghraifft, camgyfrifiadau ariannol) neu'n amlygu gwybodaeth a oedd yn eisiau cyn cyflwyno'r cais.

Dywedodd eraill fod gallu cadw cais, allgofnodi a dychwelyd ato neu ei ddiwygio'n rhywbeth a oedd o fudd. Roedd rhai'n teimlo'i fod yn gallu hwyluso trefn ar gyfer rhannu un fersiwn fyw gydag eraill yn gweithio o bell i gyfrannu at y cais, o'i gymharu

â'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli drafftiau lluosog o geisiadau sydd ar ffurf dogfennau. Roedd rhai'n cael bod platfformau ar-lein yn arbed amser os oedd dogfennau craidd a lanlwythwyd yn flaenorol yn gallu cael eu hatodi wrth geisiadau lluosog, a bod gallu defnyddio un cyfrif mewngofnodi i edrych ar eu cofnod o geisiadau hanesyddol o gymorth hefyd. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol os oedd yr wybodaeth yn gallu cael ei haildefnyddio neu ei haddasu at ddibenion ceisiadau eraill yn y dyfodol.

Roedd rhai ymatebwyr yn gwerthfawrogi dangosydd gweladwy o gynnydd o ran cwblhau eu cais trwy gydol y broses, a hwnnw'n cadarnhau bod adrannau penodol wedi cael eu cwblhau. Roedd cael cadarnhad ar unwaith ar y sgrîn bod y cais wedi cael ei gyflwyno, ynghyd â chydabyddiaeth awtomataidd trwy'r e-bost, yn tawelu meddyliau ymgeiswyr hefyd. Roedd eraill yn gwerthfawrogi gallu gweld cynnydd y corff dyfarnu o ran prosesu'r cais unwaith yr oedd wedi cael ei gyflwyno trwy'r porth ar-lein, a hwythau'n gallu gwirio am ddiweddariadau ar y statws neu adborth trwy'r un platfform.

Roedd rhai ymatebwyr yn gweld y budd i reolwyr grantiau hefyd, gan ei fod yn eu galluogi i goladu a chymharu ceisiadau tebyg, ac roeddent yn hoffi'r sicrwydd a gynigir gan chwarae teg gydag uchafsymiau geiriau wedi'u pennu ar gyfer yr holl ymgeiswyr. Dywedasant hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r gallu i weld yr atebion i unrhyw gwestiynau a godwyd gan ymgeiswyr eraill a fyddai mwy na thebyg yn lleihau'r baich ar reolwyr grantiau am nad oedd yr un cwestiwn yn cael ei ofyn iddynt dro ar ôl tro.

“Rhwyddineb mynediad a'r gallu i ddilyn dull strwythuredig rhwydd”

- Ymatebydd o'r sector preifat

“Ffurflenni syml, eglur. Y gallu i gadw ffurflen a dychwelyd ati”

- Ymatebydd o'r sector preifat

“Mae'n teimlo fel pe bai'n mynd â llai o amser a gallwch fynd yn ôl a mireinio a rhannu drafftiau'n rhwydd.”

- Ymatebydd o'r Trydydd Sector

“Mae'r data gofynnol wedi'i strwythuro'n dda, gellir dilysu'r cofnodion yn ystod y broses ac mae'r system yn darparu tryloywder o ran y cynnydd drwyddi draw. Ceir sianel gyfathrebu eglur rhwng yr ymgeisydd a'r gweithiwr achos.”

- Ymatebydd o'r sector preifat

O'i gyferbynnu, y pethau yr oedd ymatebwyr **yn eu hoffi leiaf** ynglŷn â gwneud cais am grant neu dderbyn cyllid grant ar-lein neu'n ddigidol oedd yr ymdeimlad ei fod yn bellach i ffwrdd ac yn fwy amhersonol. Roedd rhai'n teimlo bod hyn yn annog ymgeiswyr i beidio â gwneud cyswllt personol, ac y gallai fod yn anodd dod o hyd i gyswllt penodol neu rif ffôn ar gyfer ymholiadau yn ystod y broses.

Roedd yr agweddau ymarferol yn peri rhwystredigaeth i ymgeiswyr hefyd. Er enghraifft, roedd rhai systemau'n teimlo'n glogyrnaidd ac yn llafurus. Roedd yn gallu bod yn anodd fformatio testun a ffigyrau. Roedd y diffyg gwirydd sillafu'n golygu bod ymgeiswyr yn treulio mwy o amser yn creu cofnodion mewn prosesydd geiriau yn gyntaf cyn copïo a gludo testun i mewn i'r system. Roedd lanlwytho dogfennau perthnasol yn gallu bod yn broblemus, ac yn aml roedd meintiau meysydd yn annigonol o'i gymharu â maint yr wybodaeth y gofynnid amdani neu'r uchafsymiau geiriau a oedd yn cael eu darparu. Roedd methu â gweld y cais a'r gofynion cyffredinol ar ei gyfer ar y dechrau, neu ei adolygu yn ei gyfanrwydd ar y diwedd, yn rhywbeth nad oedd o gymorth. Roedd rhai hefyd yn cael bod ffurflenni ar-lein yn rhy gyfyngol, am nad oeddent yn caniatáu digon o ryddid ar gyfer cynigion gan sawl sefydliad neu geisiadau unigryw, gan fabwysiadu dull a oedd yn trin pawb yr un fath, ni waeth am faint o gyllid yr oeddent yn ymgeisio.

Roedd yr anallu i weithio all-lein yn achosi problemau weithiau, gan gyfyngu ar gydweithio gydag eraill oni bai eu bod yn defnyddio'r un enw defnyddiwr a chyfrinair i fewngofnodi. Roedd problemau cysylltedd, systemau'n cyrraedd terfyn amser, neu weinyddion yn chwalu, yn golygu bod gwaith a oedd yn cael ei letya ar blatfformau digidol yn peidio â chael ei gadw neu'n cael ei golli. Roedd rhai pryderon ynghylch diogelwch pyrth ar-lein, yn enwedig pan allai gwybodaeth hynod gyfrinachol neu wybodaeth fasnachol sensitif a oedd yn rhan o gais gael ei pheryglu gan hacwyr. Roedd rhai ymgeiswyr wedi canfod nad oedd llawer o gymorth ar gael pan oeddent yn dod ar draws problemau TG.

Roedd rhai'n teimlo rhwystredigaeth pan oedd copïau caled o ddogfennau, neu 'lofnodion gwlyb' yn ofynnol ochr yn ochr â'r ceisiadau digidol.

“Rhaid o'r anafateision posibl yw: diffyg lle i ateb cwestiynau'n llawn, anallu i ychwanegu atodiadau, gwallau mewn tablau ariannol, tablau'n peidio â chyd-fynd â'ch dadansoddiad o'r cyllid. Yr anfantais arall yw'r diffyg cyswllt personol a'r pellter oddi wrth y cyllidwr. Os oes unrhyw ymholiadau ar hyn o bryd gallwch ddiwygio'r ffurflen; unwaith y mae wedi'i chyflwyno gall hynny fod yn broblem.”

-Ymatebydd o'r Trydydd Sector

“Mae’n anodd fformatio testun, yn anodd cyfrifo nifer y geiriau, gwirio sillafu a.y.b. Roedd yn rhaid copïo a gludo gwybodaeth o ddogfen Word ac yna’i roi i mewn yn y system ar-lein. Mae gwybodaeth yn y cais yn anodd i’w rhannu gydag eraill, e.e. y bwrdd a.y.b. – eto rhaid ei chopïo a’i gludo – ni ellir cylchredeg dolen heb rannu cyfrineiriau a.y.b.”

- Ymatebydd o’r Trydydd Sector

“Roedd yn anodd ymgodymu â’r porth; roeddem yn aml yn gorfod dyfalu beth oedd y meini prawf, nid oedd enghreifftiau ar gael ac roedd yn anodd iawn siarad gyda rhywun i ddatrys problemau. Hefyd roedd diogelwch yn achos pryder mawr ac mae’n dal i fod, nid yw’r amgylchedd ar-lein yn lle diogel iawn ac mae ceisiadau am grantiau a thaliadau grantiau’n hynod gyfrinachol, byddem yn ceisio osgoi datrysiadau sy’n defnyddio pyrth ar y we.”

- Ymatebydd o’r sector preifat

“Pan fo’r system ar-lein yn methu – mae angen lawrlwytho adroddiadau fel nad yw hyn yn gatastroffig. Bydd y system yn mynd â gormod o amser gyda’r lefel o fiwrocratiaeth o ran dyfynbrisiau am fân eitemau traul.”

- Ymatebydd o’r sector preifat


“Pan fo dilysiadau papur/ffisegol yn dal yn ofynnol ar gyfer y system ddigidol – papurau wedi’u llofnodi mewn inc gwlyb a.y.b. Dylai’r broses adnabod a’r holl gamau gweithredu fod wedi’u galluogi trwy ryngwyneb digidol.”

- Ymatebydd o’r sector preifat

Y tebygolrwydd o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a fyddent yn debygol o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru. Dywedodd y mwyafrif o’r ymatebwyr eu bod yn hynod debygol neu’n weddol debygol o wneud cais am gyllid grant (87 y cant), darparu gwybodaeth fonitro (89 y cant) neu gynnal prosesau hawliadau a thaliadau (90 y cant) gan ddefnyddio rhyngwyneb ar-lein pe bai’n cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (Ffigur 16).

Ffigur 16: Y tebygolrwydd o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 341, 341, 343, 115

Sylwadau ar y tebygolrwydd o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru

O ran **awgrymiadau i Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu ei phlatfformau ar-lein ei hun**, nododd ymatebwyr y byddent yn ymgysylltu â pha bynnag ran o'r broses fyddai'n cael ei datblygu yn y ffordd yma. Nododd llawer ohonynt fod disgwyliad i blatfformau fod yn ddigidol y dyddiau hyn, er y byddai'n dal yn angenrheidiol cyfathrebu gyda rheolwyr grantiau trwy gydol y broses, yn enwedig ynghylch cynnydd prosiectau. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai'n dda profi prosesau newydd gyda defnyddwyr yn ystod y cyfnod datblygu.

Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo y gallai symud y prosesau hyn ar-lein yn llwyr ddieithrio rhai ymgeiswyr, er enghraifft micro-sefydliadau sy'n cyflawni prosiectau nad yw'n ofynnol defnyddio cyfrifiaduron ar eu cyfer, ac y gallai fod o gymorth cynnwys peth hyblygrwydd yn y dull.

“Dyma’r cyfeiriad teithio ar gyfer grantiau felly mae ein sefydliad ni’n gyfarwydd â’r broses hon.”

-Ymatebydd o’r Trydydd Sector

“Rwyf wedi defnyddio rhyngwynebau ar-lein ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru yn y gorffennol. Maent yn gweithio’n dda ac yn arbed amser os ydynt wedi’u cynllunio’n dda (h.y. gan gynnwys pob math o ddefnyddwyr) ac os yw’r cyfathrebu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn dda.”

-Sefydliad o’r sector cyhoeddus

“Yn yr oes sydd ohoni rwy’n credu mai ar y Rhyngwrdd y mae’r rhan fwyaf ohonom yn cynnal busnes ac nid wyf yn gweld unrhyw wahaniaeth o ran cynnwys y broses grantiau yn y system honno; dylai greu proses symlach a dylai ei gwneud yn bosibl cael trafodion a phenderfyniad mwy amserol.”

-Ymatebydd o’r sector preifat

O ran y broses, awgrymwyd:

- na ddylai arwain at lai o gyfathrebu gyda rheolwyr grantiau, gan sicrhau bod cyswllt penodol ar gyfer pob cam o’r broses
- y dylai leihau aneffeithlonrwydd ac unrhyw oedi i’r eithaf, bod yn ddibynadwy, a bod yn effeithlon o ran y defnydd o amser i ymgeiswyr a’r sefydliad sy’n rhoi’r grant
- y dylai sicrhau bod meini prawf cymhwysedd yn eglur, gyda chanllawiau clir, enghreifftiau o arfer gorau, Cwestiynau Cyffredin ac ymatebion i gwestiynau ychwanegol a godwyd, gan gynnwys dyddiad y cwestiwn a dyddiad yr ymateb i roi cymorth i gwblhau’r ffurflenni’n iawn
- y dylai sicrhau cydnawsedd â meddalwedd hygyrchedd ar gyfer pobl ag anabledau
- y dylai gynnig opsiwn cadw’n awtomatig ac opsiwn cadw a dychwelyd dibynadwy, fel bod ceisiadau neu hawliadau’n gallu cael eu rhannu’n dalpiâu hydrin
- y dylai gynnig y gallu i weithio all-lein i hwyluso mewnbwn gan eraill, ac i lanlwytho gwybodaeth, gan leihau i’r eithaf y gwaith a gollir os ceir problemau

TG

- y dylai sicrhau bod y dyluniad yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn rhesymegol, gan ddarparu uchafswm geiriau eglur a digon o le ar gyfer nifer y geiriau sy'n ofynnol
- y dylai ddarparu'r gallu i sganio ymlaen a gweld y broses gyfan
- y dylai warantu lefelau diogelwch uchel a'i gwneud yn bosibl cydweithio gydag eraill heb rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau, gan sicrhau cydnawsedd â walïau tân er enghraifft mewn awdurdodau lleol
- y dylai ymgorffori'r hyblygrwydd i ychwanegu neu lanlwytho gwybodaeth ategol arall gan gynnwys dolenni ar gyfer y we neu borthiannau'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer tystiolaeth
- y dylai ddarparu hysbysiadau clir ynghylch cynnydd – gan gynnwys bar cynnydd neu sgôr Coch-Ambr-Gwyrdd, gan beidio â chaniatáu i'r defnyddiwr gyflwyno'r cais oni bai bod pob maes wedi'i gwblhau
- y dylai sicrhau bod yr ymgeisydd yn meddu ar yr awdurdod i wneud ceisiadau o'r fath ar ran ei sefydliad – o bosibl trwy ymwadiadau neu gynnwys swyddogaeth ar gyfer cymeradwyaeth gan uwch reolwr
- y dylai roi'r gallu i greu fersiynau PDF neu fersiynau wedi'u hargraffu o geisiadau, adroddiadau monitro neu hawliadau at ddibenion cadw cofnodion, archwilio, neu i'w rhannu gydag uwch gydweithwyr naill ai cyn neu ar ôl eu cyflwyno
- y dylai ddarparu bras amcan mewn amser real o derfynau amser ar gyfer cael penderfyniad gan y sefydliad sy'n rhoi'r grant
- y dylai ganiatáu i ymgeiswyr bori trwy eu ceisiadau blaenorol

DIWEDD

Atodiad A: Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2018

Arolwg Grantiau Llywodraeth Cymru

Mae'r arolwg hwn yn gofyn cwestiynau i dderbynwyr grantiau ynghylch: boddhad â gwahanol rannau o'r broses grantiau; awgrymiadau ar gyfer gwelliannau; yn ogystal â phrofiadau o ryngwynebau ar-lein a'r awydd amdanynt.

Noder bod yr arolwg hwn yn gofyn am adborth ar grantiau Llywodraeth Cymru yn unig. Nid yw'n berthnasol ar gyfer y rhai sydd wedi derbyn grantiau Ewropeaidd, er enghraifft, gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 5-10 munud i'w gwblhau. Defnyddiwch y botymau ar waelod y sgrin i symud drwy'r arolwg. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os cewch unrhyw anawsterau wrth gwblhau'r arolwg hwn, cysylltwch â Cerys Ponting drwy ffonio 03000 257342 neu drwy e-bostio

YmchwilLlywodraethCymru@llyw.cymru

Mae'r arolwg yn gwbl ddiennw, ac nid oes modd eich adnabod drwy'r wybodaeth a ddarperir gennych. Bydd eich hunaniaeth wedi'i chuddio. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrinachedd a chuddio hunaniaeth yma (ffenestr newydd).

1. I ba fath o sefydliad yr ydych chi'n gweithio?

- a. Sefydliad Sector Cyhoeddus
- b. Sefydliad Sector Preifat
- c. Y Trydydd Sector / Sefydliad dielw
- d. Sefydliad Addysgol
- e. Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

2. Faint o bobl sy'n cael eu cyflogi gan eich sefydliad?

- a. 0-9
- b. 10-50
- c. 51-250
- d. 251-499
- e. 500 neu fwy
- f. Ddim yn gwybod

3. Ym mha flwyddyn ariannol wnaethoch chi derbyn eich grant diweddaraf gan Lywodraeth Cymru? (*=gorfodol; dewiswch un yn unig)

Sylwch bod 'Grant Llywodraeth Cymru' yn cyfeirio at grantiau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, ac nad yw'n cynnwys grantiau Ewropeaidd, er enghraifft gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

- a. Ebrill 2017/2018 [ymlaen i 'Bodddhad Cyffredinol']
- b. Ebrill 2016/2017 [ymlaen i 'Bodddhad Cyffredinol']
- c. Cyn Ebrill 2016 [ymlaen i 'Bodddhad Byr']
- d. Nid wyf wedi ymgeisio na derbyn grant gan Lywodraeth Cymru erioed [ymlaen i 'Sylwadau Terfynol' a llwybr allan o'r arolwg]

Os mai (a/b) yw'r ateb, ceir llwybr i'r brif adran ar foddhad. Os mai (c) cyn Ebrill 2016 yw'r ateb yna dangosir yr adran fer ar foddhad a'r blwch sylwadau penagored. Os mai (d) yw'r ateb, ceir llwybr allan o'r arolwg

4. Ydy eich sefydliad yn derbyn mwy nag un grant gan Lywodraeth Cymru?

- a. Ydy
- b. Nac ydy
- c. Ddim yn gwybod

Bodddhad cyffredinol

Hoffem holi pa mor fodlon oeddech chi â'r gwahanol gamau yn y broses wrth wneud cais am a derbyn grant(iau) Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle i roi ymateb manwl ar ddiwedd yr adran os hoffech chi ddweud mwy wrthym.

5. A wnaethoch chi gymryd rhan yn unrhyw rai o'r prosesau canlynol mewn perthynas â'ch grant(iau) diweddaraf gan Lywodraeth Cymru?

(ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- a. Defnyddio canllawiau ar wneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru [os do, gweler 6]
- b. Cyflwyno ffurflen gais am grant gan Lywodraeth Cymru [os do, gweler 7]
- c. Derbyn llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) neu gytundeb ariannu ar gyfer grant gan Lywodraeth Cymru [os do, gweler 8]
- d. Proses fonitro ar gyfer grant(iau) Llywodraeth Cymru [os do, gweler 9]
- e. Gwneud hawliad ariannol neu dderbyn taliad grant gan Lywodraeth Cymru [os do, gweler 10]
- f. Cysylltu â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru ynghylch gwneud cais am, neu dderbyn, grant [os do, gweler 11]

6. Gan ystyried y canllawiau cychwynnol ynghylch gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru; i ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roedd yn hawdd canfod pa grantiau oedd ar gael
- b. Roedd yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i wneud cais am arian grant
- c. Roedd y canllawiau ynglŷn â gwneud cais yn hawdd eu deall
- d. Roedd y meini prawf cymhwysedd a chyllid wedi eu datgan yn eglur yn y canllawiau
- e. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ynghylch gwneud cais

7. Gan feddwl am y broses o wneud cais a'r broses benderfynu ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roedd y ffurflen gais yn hawdd ei llenwi
- b. Rhoddwyd amser digonol i gwblhau'r ffurflen gais
- c. Roedd yr amserlen ar gyfer gwneud cais a chael penderfyniad wedi'i mynegi'n eglur
- d. Roedd swm yr wybodaeth y gofynnwyd amdani i gefnogi fy nghais yn addas
- e. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad.

8. Gan feddwl am y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) neu'r cytundeb cyllido gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roedd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) yn hawdd ei ddeall
- b. Anfonwyd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) mewn da bryd
- c. Roedd y llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant) yn pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr yn eglur
- d. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant).

9. Gan feddwl am broses monitro grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roedd y gofynion monitro'n addas ar gyfer lefel y cyllid
- b. Roedd yr amodau monitro wedi'u diffinio'n glir
- c. Cynhaliwyd y broses monitro mewn modd amserol
- d. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses monitro grantiau.

10. Gan feddwl am broses hawliadau a thaliadau grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roedd y ffurflenni hawlio yn hawdd eu defnyddio
- b. Proseswyd taliadau mewn modd amserol
- c. Roeddwn yn gwybod â phwy i gysylltu os oedd gennyf gwestiwn neu os oeddwn angen cymorth gyda hawliadau neu daliadau
- d. Roedd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani i ategu fy hawliadau ariannol yn briodol
- e. Roeddwn yn fodlon gyda'r modd yr ymdriniwyd â'm hawliadau ariannol
- f. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau.

11. Gan feddwl am unrhyw gysylltiadau rhyngoch chi a swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roedd yn hawdd cael gafael ar yr unigolyn cywir yn Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth
- b. Roedd y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn eglur
- c. Roedd y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn amserol
- d. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.

12. Os hoffech roi unrhyw sylwadau ynglŷn â'ch profiad wrth wneud cais am neu dderbyn eich grant(iau) Llywodraeth Cymru, gallwch eu nodi yma:

BLWCH PENAGORED

Bodddhad byr [Adran fer ar foddhad ar gyfer y rhai a ddywedodd eu bod wedi cael eu grant diweddaraf cyn Ebrill 2016]

13. Gan feddwl am eich profiad o grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Opsiynau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

- a. Roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ynghylch gwneud cais
- b. Roeddwn yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad
- c. Roeddwn yn fodlon â'r llythyr dyfarnu (telerau ac amodau'r grant)
- d. Roeddwn yn fodlon â'r broses monitro grantiau
- e. Roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau
- f. Roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais gan y swyddogion grantiau

14. Os hoffech roi unrhyw sylwadau ynglŷn â'ch profiad wrth wneud cais am neu dderbyn eich grant(iau) Llywodraeth Cymru, gallwch eu nodi yma

BLWCH PENAGORED

15. [I'r rhai nad ydynt erioed wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru] Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau am grantiau Llywodraeth Cymru, ysgrifennwch hwy yma:

BLWCH PENAGORED

Gwella prosesau grantiau Llywodraeth Cymru [Gofynnir i'r holl dderbynyddion cyfredol]

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wella profiadau'r rhai sy'n ymgeisio am neu dderbyn ei grantiau. Mae'n ystyried:

- cyflwyno mwy o gysondeb ar draws ei grantiau
- rhoi rhai prosesau grantiau (e.e. ceisiadau, monitro a hawliadau) ar-lein.

16. Ydych chi (fel unigolyn, ar ran eich sefydliad) erioed wedi gwneud cais am neu dderbyn mwy nag un grant gan Lywodraeth Cymru?

- a. Ydw [os ydw, gweler 17]
- b. Nac ydw [os nac ydw, ymlaen i Cyllid grant o ffynonellau eraill]
- c. Ddim yn gwybod [os ddim yn gwybod, ymlaen i Cyllid grant o ffynonellau eraill]

17. Gan feddwl am gysondeb o ran gwneud cais am neu dderbyn mwy nag un grant gan Lywodraeth Cymru, beth yw eich barn am y canlynol:

Opsiynau: Bob amser, Weithiau, Anaml, Byth, Amherthnasol

- a. Roedd y ffurflenni cais yn gyson ar draws gwahanol grantiau
- b. Roedd y broses cyflwyno cais yn gyson ar draws gwahanol grantiau
- c. Roedd y broses hawliadau yn gyson ar draws gwahanol grantiau
- d. Roedd y prosesau monitro yn gyson ar draws gwahanol grantiau
- e. Roedd y cyngor a gefais gan wahanol swyddogion Grant Llywodraeth Cymru yn gyson

18. Os hoffech chi roi unrhyw sylwadau am eich profiadau ynghylch cysondeb, gallwch eu nodi yma:

BLWCH PENAGORED

19. A ydych chi (fel unigolyn, ar ran eich sefydliad) wedi gwneud cais am neu wedi derbyn mwy nag un grant gan Lywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol?

- a. Ydw [gweler 20]
- b. Nac ydw [ymlaen i Cyllid grant o ffynonellau eraill]
- c. Ddim yn gwybod [ymlaen i Cyllid grant o ffynonellau eraill]

20. Pan wnaethoch gais am neu dderbyn mwy nag un grant gan Lywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn ariannol, rhwch wybod i ni os oedd angen i chi rhoi'r un wybodaeth fwy nag unwaith: (yn weladwy dim ond i'r rhai a atebodd Ydw i 19, ticiwch gymaint ag sy'n berthnasol)

- a. Wrth gyflwyno ffurflenni cais am grantiau gwahanol
- b. Wrth ddarparu gwybodaeth fonitro'r grantiau
- c. Wrth wneud hawliad/casglu taliad
- d. Egluro'r un mater i wahanol Swyddogion Grant Llywodraeth Cymru
- e. Arall (nodwch os gwelwch yn dda): _____

21. Os hoffech chi roi unrhyw sylwadau am eich profiadau ynghylch rhoi'r un wybodaeth fwy nag unwaith, gallwch eu nodi yma:

BLWCH PENAGORED

Cyllid grant o ffynonellau eraill gan ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein [Gofynnir i bob derbynnydd cyfredol]

Hoffem ddysgu am eich profiadau wrth wneud cais am, neu dderbyn, grantiau o ffynonellau eraill, yn arbennig eich profiadau o ddefnyddio rhyngwynebau ar-lein, ffurflenni digidol a/neu byrth ar y we. **Noder: Nid** yw ffurflenni ar-lein yn cynnwys e-bostio dogfennau MSWord/Excel

22. Gan feddwl am unrhyw ffynonellau grant eraill heblaw Llywodraeth Cymru, ydych chi eisoes wedi gwneud cais am grant, neu ddarparu gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer grant ar-lein neu'n ddigidol?

- a. Ydw [os ydw, ymlaen i 23]
- b. Nac ydw [ymlaen i'r blwch sylwadau terfynol]
- c. Ddim yn gwybod [ymlaen i'r blwch sylwadau terfynol]

23. Pa elfennau ydych chi wedi profi ar-lein neu'n ddigidol mewn mannau eraill:

- a. Gwneud cais am gyllid grant
- b. Darparu gwybodaeth fonitro
- c. Y broses taliadau
- d. Arall (nodwch os gwelwch yn dda) _____

24. Beth oeddech yn hoffi'n fwyaf am wneud cais am neu dderbyn cyllid grant ar-lein neu yn ddigidol?

BLWCH PENAGORED

25. Beth nad oeddech yn hoffi am wneud cais am neu dderbyn cyllid grant ar-lein neu yn ddigidol?

BLWCH PENAGORED

Gofynnir i'r holl dderbynyddion cyfredol

26. Pe bai modd cysylltu â Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio rhyngwyneb ar-lein at ddibenion grant yn y dyfodol, pa mor debygol fydddech chi i wneud hynny yn y meysydd canlynol?

Opsiynau: Annhebygol iawn - Annhebygol - Tebygol - Tebygol iawn

- a. Wrth wneud cais am gyllid grant
- b. Wrth ddarparu gwybodaeth fonitro
- c. Y broses hawliadau/taliadau
- d. Arall (nodwch os gwelwch yn dda) _____

27. Os hoffech ehangu ar eich atebion uchod, gallwch ysgrifennu mwy yma:

BLWCH PENAGORED

Sylwadau Terfynol

28. Rhwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am grantiau Llywodraeth Cymru yma:

BLWCH PENAGORED

Wedyn mae derbynyddion yn cael neges sy'n dweud

'Pwyswch y botwm anfon i gyflwyno eich ymateb i'r arolwg'

Ar ôl gwneud hynny, byddant yn mynd ymlaen i'r dudalen derfynol gyda'r neges ganlynol:

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr arolwg hwn, mae eich ymateb bellach wedi'i gyflwyno.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynllunio gwelliannau i'w broses grantiau. E-bostiwch Ymholiadau.Grant.Queries@llyw.cymru os hoffech chi gymryd rhan mewn sgysiau pellach i helpu gyda'r gwelliannau hyn. Os byddwch yn anfon e-bost, bydd y tîm grantiau yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost ddim ond i gysylltu â chi am sgysiau dilynol yn ymwneud a chanfyddiadau'r arolwg hwn.

Mae eich ymateb i'r arolwg yn gwbl ddiennw ac ni fydd modd eich adnabod drwy'r wybodaeth a ddarparwyd gennych. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, cysylltwch â Cerys Ponting drwy ffonio 03000 257342 neu anfonwch e-bost at YmchwilLlywodraethCymru@llyw.Cymru

Atodiad B: Boddhad cyffredinol yn ôl sector – dadansoddiad manwl


Cafodd y datganiadau ynglŷn â boddhad cyffredinol eu dadansoddi i ganfod pa un a oedd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r Trydydd Sector o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws sectorau. Profwyd yr ymatebion o safbwynt arwyddocâd ystadegol a chanfuwyd fod gwahaniaethau rhwng sectorau'n arwyddocaol ar y lefel $p=0.05$ mewn tri achos. Yn y tri achos arall, nid oedd canlyniadau'n arwyddocaol ar y lefel $p=0.05$, ac maent wedi'u nodi â seren (*).

Wrth gymharu sgoriau boddhad cyffredinol ar draws sectorau, y Trydydd Sector oedd y sector mwyaf bodlon o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob cam yn y broses grantiau; gan roi sgoriau bodlonrwydd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob agwedd ar y broses grantiau. Roedd y sectorau cyhoeddus a phreifat yn nodweddiadol yn llai bodlon.

Canllawiau ar wneud cais – boddhad cyffredinol yn ôl sector

O ran boddhad cyffredinol â'r canllawiau ar wneud cais (Ffigur B-1), y Trydydd Sector oedd fwyaf cadarnhaol ar 85 y cant (9 pwynt canran uwchlaw'r sgôr cyfartalog ar draws sectorau o 77 y cant). Ychydig o amrywiad oedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda sgoriau cadarnhaol o 72 a 74 y cant yn y drefn honno, a bron i un rhan o bump yn rhoi sgoriau niwtral, yn awgrymu nad oedd yr ymatebwyr hynny'n teimlo y gallent mynegi barn ynglŷn â'r canllawiau^{1*}.

Ffigur B-1: Boddhad cyffredinol â'r canllawiau ar wneud cais




Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 57, 85, 54, 201

^{1*} Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y sectorau ar y lefel $p=0.05$ ar gyfer y datganiad hwn ynglŷn â boddhad

Y broses o wneud cais a chael penderfyniad – boddhad cyffredinol yn ôl sector

O ran boddhad cyffredinol â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad (Ffigur B-2) y sector preifat oedd fwyaf cadarnhaol ar 73 y cant (7 pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd ar draws sectorau). Y sector cyhoeddus roddodd y sgôr cadarnhaol isaf, sef 57 y cant (9 pwynt canran islaw'r cyfartaledd ar draws sectorau) a'r sgôr negyddol uchaf (17 y cant o'i gymharu â'r cyfartaledd o 13 y cant ar draws sectorau). Rhoddodd dau ddeg chwech y cant o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus sgorau niwtral hefyd, gan ddynodi na oedd yr ymatebwyr hynny'n teimlo y gallent roi barn y naill ffordd na'r llall^{2*}.

Ffigur B-2: Boddhad cyffredinol â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad




Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 56, 84, 52, 197

^{2*} Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y sectorau ar y lefel $p=0.05$ ar gyfer y datganiad hwn ynglŷn â boddhad

Llythyr Dyfarnu (telerau ac amodau) – boddhad cyffredinol yn ôl sector

O ran llythyr dyfarnu Llywodraeth Cymru (Ffigur B-3) y Trydydd Sector oedd fwyaf bodlon ar 91 y cant (14 pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd ar draws sectorau); y sector cyhoeddus oedd leiaf bodlon, ar 67 y cant (10 pwynt canran islaw'r cyfartaledd ar draws sectorau). Roedd y sector preifat ychydig yn fwy anfodlon o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws sectorau (gwahaniaeth o 5 pwynt canran), ac 20 y cant oedd y sgôr niwtral uchaf (o'i gymharu â chyfartaledd o 15 y cant ar draws sectorau).

Ffigur B-3 Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â llythyr dyfarnu Llywodraeth Cymru




Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 54, 99, 66, 226

Y Broses Monitro – boddhad cyffredinol yn ôl sector

O ran boddhad â'r broses monitro grantiau (Ffigur B-4), ymatebwyr o'r Trydydd Sector oedd fwyaf bodlon, a hwythau wedi rhoi'r sgôr cadarnhaol uchaf (72 y cant) a'r sgôr negyddol isaf (5 y cant). Y sector preifat oedd leiaf bodlon, a hwythau wedi rhoi'r sgôr cadarnhaol isaf, sef 60 y cant, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws sectorau o 69 y cant. Fodd bynnag, rhoddodd bron i chwarter (23 y cant) yr ymatebwyr o'r sector preifat a'r Trydydd Sector ymateb niwtral, gan ddynodi nad oedd yr ymatebwyr hynny'n teimlo y gallent roi barn y naill ffordd na'r llall.

Ffigur B-4: Boddhad cyffredinol â'r broses monitro grantiau




Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 35, 93, 60, 195

Hawliadau a thaliadau – boddhad cyffredinol yn ôl sector

Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â boddhad â'r broses hawliadau a thaliadau (Ffigur B-5), y Trydydd Sector oedd fwyaf cadarnhaol ar 85 y cant, 5 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar draws sectorau, sef 80 y cant. Y sector preifat oedd leiaf bodlon, gyda sgôr cadarnhaol o 65 y cant, tra bo sgôr y sector cyhoeddus yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar draws sectorau.

Ffigur B-5: Boddhad cyffredinol â'r broses hawliadau a thaliadau




Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 46, 91, 67, 211

Cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru – boddhad cyffredinol yn ôl sector

Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â boddhad â'r cymorth gan swyddogion cymorth Llywodraeth Cymru (Ffigur B-6), ychydig o amrywiad oedd ar draws yr holl sectorau, gyda thua un rhan o bump (rhwng 18 a 21 y cant) o'r holl ymatebwyr yn rhoi ymatebion niwtral^{3*}.

Rhoddodd yr holl ymatebwyr sgorau boddhad uwch na 70 y cant. Ymatebwyr y Trydydd Sector oedd fwyaf bodlon, a hwythau wedi rhoi'r sgôr cadarnhaol uchaf, sef 77 y cant a'r sgôr negyddol isaf, sef 5 y cant. Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn llai bodlon na'r cyfartaledd ar draws sectorau (o 3 phwynt canran) ar 70 y cant, tra bo ymatebwyr o'r sector preifat wedi rhoi'r sgôr negyddol uchaf (12 y cant).

Ffigur B-6: Bodlonrwydd cyffredinol â'r cymorth gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru



Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 51, 87, 60, 205

^{3*} Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y sectorau ar y lefel $p=0.05$ ar gyfer y datganiad hwn ynglŷn â boddhad